Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales



PAPUR GWYNTYLLU

# Pontio’r Dyfodol: Arweinyddiaeth Addysgol mewn Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru

Yr Athro Mike Seal ac Emma Chivers

agaa.cymru | nael.cymru

# Tudalen Gynnwys

**Crynodeb Gweithredol**

**Y Prif Adroddiad**

1. Cyflwyniad

    Methodoleg

    Y Cyd-destun

2. Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth
3. Canfyddiadau
4. Trafodaeth a Dadansoddiad
5. Argymhellion
6. Cyfeiriadau
7. Atodiadau

**Atodiad 1:** Methodoleg Ymchwil a phroses yr Asesiad Cyflym o'r Wybodaeth

**Atodiad 2:** Meini Arolygu Estyn ar gyfer Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion

**Atodiad 3:** Cynnwys Gwaith Ieuenctid yn Natblygiad Strategol y Cwricwlwm i Gymru ar Lefel Ysgolion

# Crynodeb Gweithredol

## A Cyflwyniad

Comisiynodd yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (Yr Academi Arweinyddiaeth) Bapur Gwyntyllu i archwilio cyd-rolau a chydgyfrifoldebau Arweinwyr Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion o ran cyflawni'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r papur hwn yn canolbwyntio hefyd ar gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth Arweinwyr Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion o broffesiynau'r naill a'r llall, gan dynnu sylw at y modd y gall cyfuno dulliau addysgol ffurfiol, dulliau heb fod yn ffurfiol, a dulliau anffurfiol wella deilliannau i bobl ifanc. Ymhellach, mae'n cynnig y dylid cyflwyno argymhellion i lunwyr polisïau ac arweinwyr addysgol ynglŷn â defnyddio dull arweinyddiaeth systemau i ategu'r modd y rhoddir y Cwricwlwm Newydd i Gymru ar waith. Mae tri cham yn perthyn i'r astudiaeth, sef: Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth mewn perthynas â llenyddiaeth yn ymwneud â rolau arweinwyr addysgol o ran rhoi'r cwricwlwm ar waith; grwpiau ffocws gydag Arweinwyr Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion a phobl ifanc, er mwyn casglu safbwyntiau; a grwpiau ffocws terfynol ar gyfer gwirio'r argymhellion.

## B Y Cyd-destun

Mae nifer o awduron yn pwysleisio'r rôl hollbwysig sydd gan arweinyddiaeth o ran llywio a gweithredu gwaith ieuenctid mewn ysgolion, a hefyd o ran rhoi cwricwla ar waith (Kools et al., 2018; Yr Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid, 2023; Youth Action, 2021). Mae pedwar diben craidd y Cwricwlwm i Gymru yn cyd-fynd yn agos ag egwyddorion gwaith ieuenctid (Yr Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid, 2023; PYO, 2020). Yn 2018, sefydlodd y Senedd Fwrdd Gwaith Ieuenctid Interim, a aeth ati'n ddiweddarach i roi blaenoriaeth i ariannu gwaith ieuenctid, llunio deddfwriaeth a chreu corff cynrychioladol neu genedlaethol posibl. Er bod yna draddodiad maith o waith ieuenctid yn ysgolion Cymru, mae'n dal i fod yn faes dadleuol. Mae Williamson (2019) yn disgrifio'r modd mae ysgolion, ers diwedd y 1990au, wedi atgyfeirio rhai myfyrwyr gwaharddedig a myfyrwyr heriol at brosiectau ieuenctid lleol. Mae gweithwyr ieuenctid wedi cydweithio ag athrawon i gyflwyno rhaglenni amgen ar gyfer y cwricwlwm ac i ddarparu cymorth ychwanegol i fyfyrwyr ag anghenion arbennig. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o gynnydd os ydym am weld gwaith ieuenctid yn cael ei gydnabod yn llwyr fel rhan greiddiol o'r system addysg.

## C Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth

Cynhaliwyd Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth mewn perthynas â llenyddiaeth genedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol yn ymwneud â rolau arweinwyr addysgol o ran gweithredu'r cwricwlwm. Canolbwyntiwyd ar y modd y gall arweinyddiaeth gwaith ieuenctid ac ysgolion lywio polisïau ac arferion yng Nghymru. Daethpwyd o hyd i fwy na 100 o gyhoeddiadau, a chyfeirir at 65 yn y papur hwn; roedd y mwyafrif o'r astudiaethau'n deillio o'r DU ac roeddynt yn ansoddol. Gwahaniaethwyd rhwng papurau a oedd yn ymwneud yn benodol â gweithredu polisïau'r cwricwlwm ar y naill law, a llenyddiaeth academaidd ehangach ar y llaw arall. Mae'r ymchwil fwyaf perthnasol, a'r ymchwil y cyfeirir ati amlaf, yn deillio o Estyn a'r Cwricwlwm i Gymru. Mae ein Hasesiad Cyflym o'r Dystiolaeth yn cwmpasu nifer o feysydd yn ddilyniannol: gweithredu diwygiadau yn y cwricwlwm, astudiaethau'n ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru cyn ei roi ar waith, gwerthuso'r modd y rhoddir y Cwricwlwm i Gymru ar waith, arweinyddiaeth mewn addysg gan ganolbwyntio ar arweinyddiaeth systemau, arweinyddiaeth mewn ysgolion, a gwaith ieuenctid. Hefyd, mae ein Hasesiad Cyflym o'r Dystiolaeth yn archwilio modelau gwaith ieuenctid mewn ysgolion, dealltwriaeth ysgolion o waith ieuenctid yng Nghymru, ffocws addysgol a dull addysgegol gwaith ieuenctid, a 'Gwybodaeth Gudd' gwaith ieuenctid fel ffordd bosibl o bontio tensiynau eraill o ran ei gyflwyno mewn ysgolion. Ymhellach, mae Llais y Disgybl ac Addysg Gymunedol yn tynnu sylw at feysydd lle gallai gwaith ieuenctid wneud cyfraniad sylweddol.

## D Canfyddiadau sy'n deillio o'r Grwpiau Ffocws

***Deall cwricwlwm Cymru.***

Yn gyffredinol, mynegodd y cyfranogwyr farn gadarnhaol ynglŷn â'r cwricwlwm newydd a'r modd mae'n cyd-fynd ag egwyddorion ac arferion gwaith ieuenctid, yn ogystal â sectorau eraill fel Iechyd. Fodd bynnag, roedd gweithwyr ieuenctid o'r farn eu bod yn cael eu hepgor o'i ddatblygiad – pryder a ategir gan adroddiad Better Together yr Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid (2023), a nododd fod y cwricwlwm wedi'i ddatblygu *ochr yn ochr* â gwaith ieuenctid, yn hytrach na *chyda* gwaith ieuenctid. Amlygir yr allgáu hwn gan anallu gwaith ieuenctid i gael gafael ar £28m gogyfer yr Hawl Genedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, sy'n cynorthwyo i gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru.

***Gwaith strategol ar lefel genedlaethol – y realiti***

Roedd nifer o reolwyr a gweithwyr ieuenctid o'r farn mai rhywbeth tocenistaidd oedd eu cysylltiad strategol ac roeddynt yn cydnabod yr angen i gael hyrwyddwyr gwaith ieuenctid ar bob lefel o'r llywodraeth ac ar bob lefel benderfynu. Er gwaethaf hyn, mae unrhyw gysylltiad ar lefel y llywodraeth wedi bod yn anodd, ac yn aml caiff gwaith ieuenctid ei hepgor rhag llunio agendâu. Ystyrir bod y dull gweithredu wedi'i ogwyddo tuag at ysgolion, yn rhannol gan fod gwaith ieuenctid yn sector llai a chanddo lai o gynrychiolwyr strategol, gan arwain at ei ymyleiddio. Hefyd, mae'r diffyg cydraddoldeb proffesiynol mewn polisïau addysg yn effeithio ar y ddynameg hon. Fodd bynnag, mae'r ffaith y ceir gweinidog pwrpasol a chynghreiriaid gwleidyddol yn cynnig potensial ar gyfer mwy o gyfraniad strategol ar lefel y llywodraeth.

***Gweithwyr ieuenctid yn gweithredu ar lefel strategol***
Er bod angen i weithwyr ieuenctid ac ysgolion gydweithredu'n fwy strategol, yn aml mae gweithwyr ieuenctid yn rhoi blaenoriaeth i ryngweithio wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc uwchlaw gwaith strategol, gan adlewyrchu diwylliant cyffredinol sy'n trysori ymgysylltu uniongyrchol uwchlaw rolau rheoli. Hefyd, mae'r dirywiad hirdymor mewn gwaith ieuenctid wedi arwain at roi llai o flaenoriaeth i ymdrechion strategol, ac mae rhai gweithwyr ieuenctid yn ansicr ynglŷn â sut i ymgysylltu'n strategol. Er gwaethaf yr heriau hyn, ceir consensws bod yn rhaid i weithwyr ieuenctid fabwysiadu dull mwy strategol, a defnyddir yr Alban fel enghraifft gadarnhaol. Mae'r gwerthusiad o'r Cwricwlwm i Gymru yn tynnu sylw at yr effaith gadarnhaol a gaiff Gwaith Ieuenctid o fewn y byd addysg, ond mae hefyd yn nodi heriau fel ei rôl aneglur, tanwerthfawrogiad a diffyg adnoddau, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc a ymyleiddiwyd, oherwydd gwahaniaethau addysgegol, dibyniaeth ar adnoddau ysgolion a darnio daearyddol.

**Dysgu Proffesiynol.**
Roedd y cyfranogwyr yn bryderus ynglŷn â'r diffyg cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid o gymharu ag athrawon – mae hyn yn effeithio ar adnoddau ac yn peri rhwystredigaeth ymhlith arweinwyr Gweithwyr Ieuenctid. Dim ond oddeutu £200k y flwyddyn a gaiff y sector gwaith ieuenctid ar gyfer dysgu proffesiynol; mae'r ffigur hwn yn tynnu sylw at y gwahaniaeth. Mae dysgu proffesiynol o'r radd flaenaf yn hanfodol i ddeilliannau addysgol, ond mae diffyg mynediad Gweithwyr Ieuenctid at y prosiect hawl ymholi cenedlaethol yn gwaethygu mwy fyth ar y pryderon hyn. Rhaid mynd i'r afael â'r gwahaniaeth hwn o ran cyfleoedd dysgu proffesiynol er mwyn gwella'r effaith a gaiff gwaith ieuenctid ar addysg.

***Gweithio ar lefel ranbarthol a lleol***
Roedd y cyfranogwyr yn amheus ynglŷn â gweithio gyda chonsortia ysgolion rhanbarthol. Roedd yn well ganddynt ymgysylltu ag undebau, ond roeddynt yn fwy cadarnhaol ynglŷn â chydweithredu ar draws ysgolion ac ar draws awdurdodau lleol, sy'n helpu i wasgaru atebolrwydd. Roedd nifer ohonynt o'r farn nad oedd gan ysgolion ganllawiau digonol, gan arwain at oedi a chan arwain hefyd at yr angen i gael caniatâd i arloesi.  Mae adroddiad Thompson (2023) yn ategu'r syniad bod clystyrau cryf o ysgolion â chydberthnasau rhyng-sector effeithiol yn darparu gwell arweiniad. Mae ymgysylltu ag ysgolion ar lefel leol yn hollbwysig, er gwaethaf heriau gyda chyrff llywodraethu ysgolion. Mae'n bwysig adeiladu cydberthnasau strwythuredig gydag ysgolion gan fod trosiant y staff yn effeithio ar gysylltiadau personol.

**Angen arweinyddiaeth ar gyfer gweithredu**
Mynegodd y cyfranogwyr bryderon ynglŷn â'r arweinyddiaeth sy'n angenrheidiol i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, gan dynnu sylw at heriau fel yr angen i raeadru caniatâd, prosesau penderfynu anhyblyg, a rhuthro i weithredu. Arweiniodd hyn at ganolbwyntio ar gydymffurfio uwchlaw meddwl strategol, gan olygu bod unrhyw gydweithredu yn docenistaidd yn aml. Darganfu Thomas et al. (2023) fod y staff yn gyndyn o symud oddi wrth fframweithiau a oedd wedi ennill eu plwyf, gan beri i ysgolion fabwysiadu 'meddylfryd argyfwng' a dychwelyd at arweinyddiaeth orawdurdodol. Ond mae'r llenyddiaeth yn awgrymu bod arweinyddiaeth wasgaredig a chydweithredol yn hollbwysig mewn argyfwng. Pwysleisiodd y cyfranogwyr fod angen dulliau cynhwysol sy'n canolbwyntio ar gymunedau, ac roedd rhai arweinwyr o blaid arweinyddiaeth ddemocrataidd i fynd i'r afael â materion fel presenoldeb. Pwysleisiodd grŵp ffocws y gweithwyr ieuenctid pa mor bwysig yw dysgu moesegol a strategaethau hirdymor, gan ddatblygu model clwstwr ar gyfer arweinyddiaeth wasgaredig a chan gasglu astudiaethau achos hirdymor i bennu arferion gorau.

***Angen rhagor o amser a meddwl dyfnach***
Roedd arweinwyr ysgolion yn bryderus ynglŷn â'u diffyg ymwybyddiaeth o brosiectau lleol oherwydd toriadau a hefyd oherwydd twf yn y sector gwirfoddol, felly nid oeddynt yn siŵr pwy y dylent eu cynnwys mewn partneriaethau. Mae hyn yn adlewyrchu dull brysiog o weithio mewn partneriaeth, yn hytrach nag ymdrin â newidiadau diwylliannol dyfnach sy'n angenrheidiol ar gyfer cydweithredu gwirioneddol. Mae angen rhagor o amser i ddatblygu partneriaethau gwirioneddol ac i fanteisio ar ddulliau arwain gwahanol. Cydnabu'r cyfranogwyr fod y Cwricwlwm i Gymru yn cynrychioli newid diwylliannol pwysig – rhywbeth na chaiff ei gydnabod yn ddigonol. Hefyd, nodwyd gwrthwynebiad tuag at ddulliau arwain mwy gwasgaredig.

***Cyfraniad gwaith ieuenctid:***

- ***Mynd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth*** Roedd gweithwyr ieuenctid yn gweld meysydd pendant lle gallai gwaith ieuenctid gyfrannu at weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, yn cynnwys mynd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth, ychwanegu at y set sgiliau ehangach a chyfrannu yn y modd a nodir yn y cwricwlwm newydd.
- ***Hyrwyddo'r syniad bod dull gwaith ieuenctid yn dra addas i weithredu'r cwricwlwm*** Cydnabu gweithwyr ieuenctid fod angen mynd ati'n well i hyrwyddo'u dull a'r modd y gallant gyflwyno'r cwricwlwm newydd. Dywedasant fod agweddau craidd ar y cwricwlwm, fel meithrin uchelgais, dysgu gydol oes, creadigrwydd, dinasyddiaeth foesegol, a llesiant, yn ganolog i waith ieuenctid. Y tu hwnt i weithgareddau, mae dull addysgegol arbrofol gwaith ieuenctid yn hollbwysig. Soniodd pobl ifanc am ymhél â'r celfyddydau, crefftau, chwaraeon, a gweithdai seiliedig ar faterion mewn ysgolion a chlybiau ieuenctid, gyda ffocws cryf ar lesiant yn yr ysgol.

- ***Cyfraniad o ran arweinyddiaeth*** Er eu bod yn wynebu heriau mawr, yn cynnwys hyd at 80% o doriadau mewn gwasanaethau a symud oddi wrth weithrediadau awdurdodau lleol at weithrediadau'r sector gwirfoddol, mae prosiectau gwaith ieuenctid wedi osgoi dulliau arwain gorawdurdodol. Yn hytrach, maent wedi manteisio ar fodelau arweinyddiaeth wasgaredig ac arweinyddiaeth sy'n gweddnewid, a ysgogir gan yr angen am ymatebion cyflym ac ymrwymiad i flaenoriaethu pobl ifanc. Mae gan waith ieuenctid gyfraniad cadarnhaol i'w wneud at fodelau arwain, a gall gynnig mewnwelediadau strategol, yn enwedig o ran ffynnu mewn sector ansicr a rheoli ffynonellau cyllid amrywiol. Ar yr un pryd, rhaid i waith ieuenctid fanteisio ar arweinyddiaeth systemau a chydweithredu ag asiantaethau eraill.
- ***Llais y myfyriwr*** Gall gwaith ieuenctid helpu i ehangu safbwyntiau lleisiau myfyrwyr a rhieni mewn ysgolion, fel y nodir yn y Cwricwlwm i Gymru. Aeth rhai cyfranogwyr ati i feirniadu cynghorau traddodiadol mewn ysgolion, gan bwysleisio pa mor bwysig yw cynnwys cyfraniadau pobl ifanc wrth fynd i'r afael â materion fel diffyg presenoldeb. Mae hyn yn tynnu sylw at yr 'wybodaeth gudd' sydd ym meddiant gwaith ieuenctid, gan gydnabod y gall pobl ifanc sydd wedi cael profiadau negyddol mewn addysg a chydag oedolion gynnig mewnwelediadau gwerthfawr ar gyfer llywio ymyriadau effeithiol.

**Meysydd i'w datblygu:**
***Pontio a Deallusrwydd Artiffisial*** Nodwyd bod pontio rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd yn broblem oherwydd dulliau addysgegol gwahanol a maint ysgolion, a all effeithio ar brosiectau ieuenctid a anelir at bobl ifanc 13-19 oed; er, mae rhai enghreifftiau llwyddiannus i'w cael. Hefyd, gofynnwyd am well cymorth ar gyfer pontio allan o ysgolion uwchradd. Ymhellach, roedd gweithwyr ieuenctid o'r farn bod llythrennedd digidol a Deallusrwydd Artiffisial yn feysydd a gaiff eu hesgeuluso yn y Cwricwlwm i Gymru, a phwysleisiwyd bod angen addysgu pobl ifanc i ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial yn gyfrifol, gan fod ei wahardd yn aneffeithiol.

***Deall gwaith ieuenctid*** Problem gyffredin yw'r ffaith nad yw ysgolion, yn aml, yn deall bod gwaith ieuenctid yn ymdrech addysgol a chanddo ei gwricwlwm, ei egwyddorion a'i ddull addysgegol ei hun, sy'n cyd-fynd yn dda â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae llawer o bobl yn dal i fod o'r farn mai gweithgaredd hamdden yw gwaith ieuenctid. Mae sectorau addysg ffurfiol wedi cael eu beirniadu am beidio â rhoi blaenoriaeth i ddeall gwaith ieuenctid, gan ruthro i weithredu'r cwricwlwm a cheisio atebion cyflym. Yn aml, dim ond wrth ddelio â rhai myfyrwyr "problemus" y bydd ysgolion yn cynnwys gweithwyr ieuenctid, ac mae hyn yn codi pryderon ynglŷn â labelu a stigmateiddio. Ond mae gan weithwyr ieuenctid dreiddgarwch gwerthfawr o ran ymgysylltu â phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio a deall dynameg gymdeithasol. Yr her i waith ieuenctid yw mynegi'n well beth yw ei rôl a'i werth i addysg ffurfiol.

## E-trafodaeth
Yn gyffredinol, ystyrir bod y cwricwlwm yn rhywbeth da a chadarnhaol, sydd â gwir botensial i weddnewid.

Wrth ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru, ni chynhwyswyd gwaith ieuenctid yn strategol bob tro, ac mae hyn wedi arwain at ymgysylltu anghyson ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Mae natur ddarniog y sector gwaith ieuenctid yn cymhlethu unrhyw ymgysylltu cenedlaethol. Mae diffyg arian, diffyg dealltwriaeth a diffyg integreiddio â'r system addysg ehangach yn effeithio ar wasanaethau Gwaith Ieuenctid, gan gyfyngu ar eu heffaith ar ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Yn aml, mae llunwyr polisïau'n anwybyddu rôl strategol arweinwyr gwaith ieuenctid, gan ymyleiddio'u dylanwad. Os ydym am roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yn effeithiol, rhaid cael cydweithredu ar draws ysgolion, sectorau ieuenctid a phartneriaid addysgol. Rhaid i'r llywodraeth a'r llunwyr polisïau ymgysylltu o ddifrif ag arweinwyr gwaith ieuenctid ac eraill er mwyn sicrhau arferion a pholisïau cynhwysfawr. Gallai hyfforddiant ar y cyd a chyfranogiad ehangach mewn mentrau fel y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol wella dealltwriaeth broffesiynol ac atebion cydweithredol, gan ategu dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru.

Ar lefel ranbarthol, mae ysgolion yn oedi yn aml cyn cymryd camau unigol oherwydd diffyg arweiniad, a hefyd gan eu bod ofn gwneud camgymeriadau. Mae adroddiad diweddar yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn tynnu sylw at yr angen hwn am sicrwydd gan yr haen ganol, a phwysleisir pa mor bwysig yw hi i ddulliau asesu ategu trafodaethau cenedlaethol ynghylch cyflogadwyedd myfyrwyr. Bwriad consortia rhanbarthol yw cynnig arweiniad a meithrin cydweithredu, ond maent wedi wynebu beirniadaeth oherwydd eu dull, a hefyd oherwydd ansawdd eu cymorth, gan beri i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad. Mae'r pryderon yn cynnwys dull 'o'r brig i lawr', anghysondeb, a biwrocratiaeth ddiangen. Er gwaethaf y problemau hyn, anogir cydweithredu rhwng ysgolion a phartneriaethau gydag awdurdodau lleol, ac argymhellir y dylid parhau i wneud gwaith uwch-leol.

Ar lefel ysgolion lleol, cred y cyfranogwyr fod y gwaith o weithredu'r cwricwlwm wedi cael ei ruthro, gan beri i ysgolion ganolbwyntio ar gydymffurfio yn hytrach na mynd ati i ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon. Mae hyn wedi peri i ysgolion weithio mewn seilos, gan gamgydweddu blaenoriaethau a lleihau llif gwybodaeth. Mae'r ddogfen "Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022" yn cynghori yn erbyn gweithredu'r cwricwlwm ar frys a defnyddio dulliau arwynebol, a hefyd mae'n nodi na ddylid trin y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm fel digwyddiad 'untro'. Mae adroddiad yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (2024) ac adroddiad Fullan (2020) yn pwysleisio bod angen arweinyddiaeth ar bob lefel, yn

enwedig ar y lefel ganol ac ar lefel ranbarthol, er mwyn sicrhau dysgu proffesiynol cyson ac er mwyn gallu diwygio addysg yn llwyddiannus. Mae sicrwydd ansawdd gan yr haen ganol yn hollbwysig o ran mynd i'r afael ag amrywio rhanbarthol a darparu cymorth buddiol i arweinwyr ysgolion.

**Cyfraniad Gwaith Ieuenctid at weithredu'r Cwricwlwm i Gymru ar lefel ysgolion**

Mae dogfen y Prif Swyddogion Ieuenctid (2023) yn nodi'r modd y gall gwaith ieuenctid ategu pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, ond ni cheir manylion am y modd y gellir cynnwys gwasanaethau ieuenctid wrth lunio a chynllunio'r cwricwlwm. Mae'r Canllawiau ar gyfer Ysgolion Bro (2020) yn pwysleisio bod angen i bob rhanddeiliad fod yn atebol – nid arweinwyr ysgolion yn unig. Mae "Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022" yn pwysleisio pa mor bwysig yw paratoi'r cwricwlwm ar y cyd, a rhestrir egwyddorion y dylai ysgolion eu dilyn. Gall gweithwyr ieuenctid ddefnyddio'u harbenigedd mewn cydgynhyrchu, llais y disgybl ac ymgysylltu â phobl ifanc a ymyleiddiwyd i gynorthwyo ysgolion. Dylid cynnwys gweithwyr ieuenctid yn ystod pob cam sy'n berthnasol i weithredu'r cwricwlwm – hynny yw, ymgysylltu, cynllunio, treialu, gwerthuso a mireinio. Mae'r ddogfen yn tynnu sylw at yr angen i gydweithredu, deall gwahanol ddulliau addysgegol, ac ymgysylltu'n feirniadol ag arbenigedd. Oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, rhaid targedu adnoddau'n effeithlon, gan sicrhau bod arweinwyr ledled y system yn gweithio gyda'i gilydd i ategu agendâu'r Cwricwlwm i Gymru ac agendâu Ysgolion Bro.

<u>Yn Atodiad 2, nodir sut gall gwaith ieuenctid ymgysylltu â'r holl gamau sy'n berthnasol i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion.</u>

**Ymgysylltiad Gwaith Ieuenctid gydag ysgogwyr polisi eraill mewn ysgolion**

Daw ysgolion o dan ddylanwad gwahanol bolisïau, yn enwedig arolygon Estyn, sy'n pwysleisio'r cwricwlwm o fewn eu fframwaith. Mae canllawiau Estyn (2024) yn nodi y bydd arolygwyr yn gwerthuso cwricwla ysgolion ar sail eu gweledigaeth a'u cyd-destun, a hefyd o ran y graddau maent yn dilyn y Cwricwlwm i Gymru. Mae arolygon yn asesu pa mor dda mae ysgolion yn cydweithredu ag asiantaethau eraill a'r gymuned, a hefyd pa mor dda maent yn meithrin llais y disgybl, gan ganolbwyntio ar grwpiau a ymyleiddiwyd. Gall gwaith ieuenctid gynorthwyo ysgolion trwy ddarparu cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, trwy wella ymddygiad ac agweddau disgyblion sydd wedi'u gwahardd, trwy annog arweinyddiaeth disgyblion a thrwy ymgysylltu â'r gymuned. Mae'r canllawiau'n nodi fframwaith ar gyfer addysgu, dysgu, llesiant ac arweinyddiaeth, lle gall gwaith ieuenctid gyfrannu'n fawr at nifer o ddangosyddion llwyddiant, megis deall y gymdeithas, ysbrydoli disgyblion a meithrin cydberthnasau cadarnhaol.

<u>Yn Atodiad 3, nodir model ar gyfer y modd y gall gweithwyr ieuenctid helpu ysgolion i fodloni dangosyddion Arolygon Estyn.</u>

**Ymgysylltu â'r agenda Ysgolion Cymunedol**

Gall Gwaith Ieuenctid a Chymunedol gyfrannu'n helaeth at wella gwaith ymgysylltu â chymunedau mewn ysgolion trwy ddilyn egwyddorion a nodir gan Estyn (2020). Mae'r rhain yn cynnwys darparu dysgu proffesiynol i'r holl staff mewn perthynas ag ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau, cyflogi staff ymgysylltu pwrpasol a chydweithredu gyda phartneriaid ac awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag anghenion y gymuned. Dylai staff ymgysylltu effeithiol feddu ar brofiad o ddelio â chymunedau, yn ogystal â sgiliau rhyngbersonol da a'r gallu i eirioli dros deuluoedd. Hefyd, dylent greu mannau cefnogol ar gyfer meithrin cymunedau; dylent wrando ar, a chynnwys, lleisiau cymunedol wrth wneud penderfyniadau; a dylent agor mannau sefydliadol ar gyfer cyfranogi ystyrlon, gan sicrhau y defnyddir arbenigedd gwaith ieuenctid.

**Cyfraniad gwaith ieuenctid at arweinyddiaeth**

Oherwydd ansicrwydd ariannol a blaenoriaethau croes, mae nifer o ysgolion wedi dychwelyd at ddulliau arwain hierarchaidd a gorawdurdodol, sy'n llai effeithiol o ran rheoli newid mewn amgylcheddau anwadal. I'r gwrthwyneb, mae Gwasanaethau Ieuenctid wedi mabwysiadu modelau arwain mwy democrataidd, gweddnewidiol a gwasgaredig, ac maent yn esiampl yn hyn o beth. Gellir gweld arweinyddiaeth wasgaredig ac arweinyddiaeth sy'n gweddnewid mewn prosiectau ysgolion a phrosiectau gwaith ieuenctid fel ei gilydd, ond maent yn ymateb yn wahanol i argyfyngau. Mae ysgolion yn tueddu i fynd yn fwy hierarchaidd, tra mae gwaith ieuenctid yn mabwysiadu dull arwain mwy hyblyg. Fodd bynnag, mae gan waith ieuenctid wersi i'w dysgu hefyd – o ran arweinyddiaeth systemau a chynllunio strategol amlasiantaeth. Caiff hyfforddiant ar y cyd rhwng arweinwyr ysgolion a gwaith ieuenctid ei hyrwyddo er mwyn gwella dealltwriaeth broffesiynol. Mae adroddiad yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (2024) yn galw am gymorth ar gyfer pob arweinydd addysgol, yn cynnwys arweinwyr mewn gwaith ieuenctid, ac mae'n argymell y dylid ymestyn cyllid y rhaglen dysgu proffesiynol er mwyn cynnwys gwaith ieuenctid, gan dynnu sylw at y ffaith bod angen arweinyddiaeth gydweithredol a rhannu adnoddau.

**Yr angen i fynegi a chyfleu gwaith ieuenctid**

Er bod y polisi'n cydnabod bod gwaith ieuenctid yn rhywbeth addysgol, ni chaiff y ddealltwriaeth hon ei hadlewyrchu bob tro ar lefel leol, ac mae rhai ysgolion o'r farn mai darpariaeth amgen neu weithgaredd hamdden yw gwaith ieuenctid. Mae adroddiad yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn tynnu sylw at yr angen i newid y syniad y dylai gwaith ieuenctid ganolbwyntio'n bennaf ar bobl ifanc a ymyleiddiwyd. Mae camgyfleu rhwng gweithwyr ieuenctid ac ysgolion yn cyfrannu at y broblem hon. Yn aml, ni chaiff addysgeg, cwricwlwm na dull addysgol unigryw gwaith ieuenctid

eu mynegi'n dda, gan arwain at gamddealltwriaeth. Hefyd, rhaid i waith ieuenctid fynegi'r 'wybodaeth gudd' sy'n rhan bwysig o'r dull, yn cynnwys pwyslais ar alluogedd, ein telerau ymrwymo gwahanol, y ffaith ein bod yn gwrthod coleddu barn negyddol ynglŷn â phobl ifanc, a'n nod i unioni anghyfartaledd pŵer mewn addysg. Mae angen i weithwyr ieuenctid gytuno ar fodel arferion ysgolion sy'n cyfuno disgwyliadau polisi ac ymarfer rhyddhaol (Youth Link, 2023). Rhaid datrys y modd mae egwyddorion cyffredinoliaeth a gwirfoddoliaeth yn datblygu mewn ysgolion. Mae'n hanfodol cael trafodaeth ynglŷn ag arweinyddiaeth ynghyd â chanllawiau clir ar gydweithredu rhwng ysgolion a gweithwyr ieuenctid. Gallai arweiniad yr Alban ar waith ieuenctid mewn ysgolion fod yn fodel i Gymru, lle pwysleisir bod angen ymdrechu ar y cyd i lywio dynameg pŵer, diffinio rolau a dyrannu adnoddau'n effeithiol.

## F Argymhellion

***Ar gyfer Llywodraeth Cymru***

- Er mwyn gwella'r modd y cynhwysir y sectorau Gwaith Ieuenctid yn y Cwricwlwm i Gymru, argymhellwn y dylid cynyddu'r cyllid a dyrannu'r adnoddau'n strategol er mwyn mynd i'r afael â chyfyngiadau o ran arian, pobl a deunyddiau, yn cynnwys adnoddau ychwanegol ar gyfer amser rhyddhau staff, cymorth, uwchsgilio staff a chreu adnoddau. Mae'n hanfodol gweithredu argymhellion yr adolygiad gwella ysgolion a sicrhau bod sectorau gwaith ieuenctid yn cael eu cynrychioli'n strategol ar wahanol lefelau.
- Dylai trefniadau rhanbarthol gydbwyso ymreolaeth gyda chanllawiau, gan annog ysgolion i fynd ati'n feirniadol i adolygu'r modd y rhoddir y Cwricwlwm i Gymru ar waith ac i gydweithredu gydag arweinwyr o wahanol sectorau. Awgrymir y gallai systemau cymorth haen ganol, fel model y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol, wella ymdrechion cydweithredol.
- Dylid ategu dysgu proffesiynol ar lefelau cenedlaethol ar draws amryfal sectorau addysgol, gan integreiddio'r Cwricwlwm i Gymru ac Arweinyddiaeth Systemau oddi mewn i raglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon a Gwaith Ieuenctid. Anogir y defnydd o arbenigedd amlsector ar gyfer ymchwil weithredu effeithiol a chomisiynu gwaith ymchwil parhaus oddi mewn i weithredu'r cwricwlwm. Hefyd, argymhellwn y dylid sicrhau bod modd i weithwyr ieuenctid gael gafael ar adnoddau fel HWB, yn ogystal ag osgoi dyblygu wrth ddatblygu adnoddau.
- Dylai canllawiau ar gyfer ysgolion argymell cynnwys Gwaith Ieuenctid fel partneriaid strategol, gan gynorthwyo ysgolion i fodloni gofynion strategol a meithrin profiadau dysgu cadarnhaol, yn enwedig i fyfyrwyr a ymyleiddiwyd.

***Ar gyfer darparwyr hyfforddiant***

- Dylai cyrsiau Gwaith Ieuenctid ac Addysg Gychwynnol i Athrawon gynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am y Cwricwlwm i Gymru, ynghyd â gwybodaeth gynhwysfawr am wahanol ddulliau arwain (fel arweinyddiaeth wasgaredig, arweinyddiaeth sy'n gweddnewid ac arweinyddiaeth systemau) a rôl Gweithwyr Ieuenctid mewn ysgolion.
- Hefyd, dylai'r cyrsiau hyn ganolbwyntio ar weithio'n effeithiol mewn partneriaeth, yn ogystal â chanolbwyntio ar y pethau sy'n ysgogi gweithio effeithiol o'r fath. Ymhellach, dylai'r rhaglenni fynd i'r afael â rheoli ac arwain yn ystod cyfnodau lle ceir ansicrwydd ac argyfwng, gan roi pwyslais ar bontio oddi wrth oroesi tuag at ffynnu.

***Ar gyfer disgyblion sy'n ymadael â'r ysgol***

- Er mwyn gwella rôl Gwaith Ieuenctid yn y Cwricwlwm i Gymru, mae hi'n hanfodol dilyn yr ymchwil ddiweddaraf ar arweinyddiaeth ysgolion a gweithredu'r cwricwlwm, gan greu cynghreiriau gydag academyddion.
- Dylid cydnabod bod Gwaith Ieuenctid yn ymdrech addysgol sydd â dulliau addysgegol unigryw, a'i fod o werth i bob disgybl, nid i ddisgyblion a ymyleiddiwyd yn unig. Ni ddylid ystyried bod Gwaith Ieuenctid yn weithgaredd dargyfeiriol neu'n weithgaredd sy'n anelu at newid ymddygiad.
- Dylid defnyddio gweithwyr ieuenctid, sef arbenigwyr mewn cydgynhyrchu a gweithio gyda phobl ifanc a ymyleiddiwyd, oherwydd eu cyfraniad at fodelau arwain a chwricwla effeithiol.
- Dylid creu gweithgareddau hyfforddiant a chyfnewid gwybodaeth er mwyn meithrin cyd-ddealltwriaeth o wahanol ddulliau addysgegol.
- Dylid cynnwys Gweithwyr Ieuenctid yn y gwaith o lunio cynlluniau strategol ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac wrth weithredu canllawiau ar gyfer Ysgolion Bro, gan hwyluso ymgysylltu â disgyblion, rhieni a'r gymuned. Dylid cydnabod eu cyfraniad at gyflawni'r cwricwlwm, yn enwedig o dan feini prawf arolygon Estyn. Ymhellach, mae hi'n hanfodol cydweithredu'n strategol ag arweinwyr Gwaith Ieuenctid i dreialu 'dysgu y tu allan i oriau' ar sail anghenion pobl ifanc.

***Ar gyfer arweinwyr gwaith ieuenctid***

- Er mwyn gwella rôl Gwaith Ieuenctid yn y Cwricwlwm i Gymru, mae hi'n hanfodol dilyn yr ymchwil ddiweddaraf ar waith ieuenctid, addysgeg ac arweinyddiaeth, gan greu cynghreiriau gydag academyddion.
- Dylai Gwaith Ieuenctid geisio sicrhau cynrychiolaeth strategol ar bob lefel wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru ac wrth ddatblygu gwelliannau mewn ysgolion.
- Dylid mynegi'n glir beth yw rôl Gwaith Ieuenctid, yn cynnwys ei ddulliau addysgegol unigryw a'i bwyslais ar alluogedd, gan hyrwyddo barn gadarnhaol am bobl ifanc. Dylid annog Gweithwyr Ieuenctid i weithio mewn ysgolion, gan fynd ati i ddeall y ddynameg pŵer, diffinio rolau a mynd i'r afael â gwahaniaethau mewn adnoddau.
- Dylai Gweithwyr Ieuenctid gymryd rhan mewn ysgolion a chonsortia rhanbarthol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau, a dylid cydnabod eu cyfraniad at weithredu'r cwricwlwm a gwaith cynllunio strategol.
- Mae hi'n hanfodol bod yn ymwybodol o elfennau ysgogol mewn ysgolion, fel asesiadau ac arolygon. Dylid tynnu sylw at y modd mae Gwaith Ieuenctid yn cyfrannu at ddisgwyliadau Estyn ac yn gwella deilliannau i bobl ifanc, yn enwedig pobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a grwpiau a ymyleiddiwyd, gan ganolbwyntio ar ddarparu profiadau dysgu cadarnhaol a meithrin yr arfer o ymgysylltu â'r gymuned.

# 1. Cyflwyniad

Nod yr Academi Arweinyddiaeth yw cynorthwyo arweinwyr i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol wedi comisiynu astudiaeth i archwilio rôl arweinyddiaeth addysgol mewn lleoliadau ffurfiol ac anffurfiol, megis gwaith ieuenctid ac ysgolion. Mae'r astudiaeth hon yn canolbwyntio ar y modd y gall arweinwyr gwaith ieuenctid ac ysgolion gydweithredu i roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith, gan ymgorffori safbwyntiau rhanddeiliaid hollbwysig, yn cynnwys pobl ifanc. Dyma amcanion y Papur Gwyntyllu:

- Diffinio cyd-rolau a chydgyfrifoldebau arweinwyr gwaith ieuenctid ac ysgolion o ran cyflawni'r Cwricwlwm i Gymru.
- Gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru trwy roi dull arweinyddiaeth gydweithredol ar waith.
- Gwella cyd-ddealltwriaeth rhwng arweinwyr gwaith ieuenctid ac ysgolion er mwyn gwella deilliannau i bobl ifanc.
- Cyflwyno argymhellion i arweinwyr addysgol a llunwyr polisïau ynglŷn â defnyddio dull arweinyddiaeth systemau i ategu'r gwaith o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

# Methodoleg

### Roedd tri cham yn perthyn i'r astudiaeth, sef:

- **Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth:** Adolygiad o lenyddiaeth genedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol yn ymwneud â rolau arwain addysgol wrth weithredu'r cwricwlwm, gan ganolbwyntio ar arweinyddiaeth gwaith ieuenctid ac ysgolion. Roedd yr Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth yn cynnwys llenyddiaeth lwyd ac ymchwil a adolygwyd gan gymheiriaid, a rhoddwyd blaenoriaeth i adolygiadau systematig a chyhoeddiadau diweddar.
- **Grwpiau Ffocws:** Cynhaliwyd tri grŵp ffocws gydag arweinwyr gwaith ieuenctid ac ysgolion er mwyn gwirio'r canfyddiadau a chasglu safbwyntiau ynglŷn â gweithredu cysyniadau arweinyddiaeth ar draws ffiniau proffesiynol. Ymhellach, casglwyd adborth gan bobl ifanc trwy gyfrwng clwb ieuenctid lleol.
- **Argymhellion a Gwirio:** Lluniwyd argymhellion ar sail dull arweinyddiaeth systemau ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Bydd gweithdai gwirio'n cael eu cynnal gydag arweinwyr gwaith ieuenctid ac ysgolion i gadarnhau'r argymhellion hyn.

# Y Cyd-destun

Mae dibenion craidd y Cwricwlwm i Gymru yn cyd-fynd ag egwyddorion gwaith ieuenctid. Erbyn hyn, mae'n ofynnol i weithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg, ochr yn ochr â staff addysgol eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynglŷn â meini prawf newydd ar gyfer achredu addysg gychwynnol i athrawon, gan hyrwyddo cydweithredu rhwng athrawon a gwaith ieuenctid. Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru yn pwysleisio'r bartneriaeth rhwng gwaith ieuenctid ac addysg ffurfiol er mwyn cyflawni nodau'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r astudiaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd arweinyddiaeth o ran integreiddio gwaith ieuenctid mewn ysgolion a goresgyn deuoliaethau traddodiadol rhwng y ddau sector.

Llwyddodd Adroddiad Albemarle (1960) i hyrwyddo gwaith ieuenctid yn fawr yng Nghymru a Lloegr trwy fuddsoddi mewn cyfleusterau, yn cynnwys clybiau ieuenctid mewn ysgolion. Yn yr Alban, arweiniodd Adroddiad Kilbrandon (1961) at greu 'adenydd ar gyfer ysgolion', gan ddefnyddio ysgolion i raddau mwy ar gyfer gweithgareddau ieuenctid. Er gwaethaf y tebygrwydd, nodwyd gwahaniaethau o ran iaith, diwylliant a gwledigrwydd. Yn niwedd y 1990au, cefnogodd Cyngor Ieuenctid Cymru wahanol fodelau gwaith ieuenctid mewn ysgolion, yn cynnwys rhaglenni amgen ar gyfer y cwricwlwm a chymorth i fyfyrwyr ag anghenion ychwanegol. Rhoddwyd Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru ar waith yn 2004, gan bwysleisio cyfranogiad. Fodd bynnag, mae gwaith ieuenctid yn dal i gael anhawster i gael gafael ar gyllid sylweddol ar gyfer dysgu proffesiynol.

# 2. Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth:

Trefnwyd yr Asesiad hwn mewn modd dilyniannol ac mae'n ymdrin â'r canlynol:

- Gweithredu diwygiadau yn y cwricwlwm
- Astudiaethau'n ymwneud â gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru cyn ei roi ar waith
- Gwerthuso'r modd y rhoddir y Cwricwlwm i Gymru ar waith
- Arweinyddiaeth mewn Addysg (gan ganolbwyntio'n arbennig ar arweinyddiaeth systemau)
- Arweinyddiaeth mewn ysgolion
- Arweinyddiaeth mewn gwaith ieuenctid
- Y cyd-destun: Gwaith ieuenctid mewn ysgolion yng Nghymru
- Modelau gwaith ieuenctid mewn ysgolion
- Dealltwriaeth ysgolion o waith ieuenctid yng Nghymru
- Ffocws addysgol, cwricwlwm a dull addysgegol gwaith ieuenctid
- ‘ Gwybodaeth gudd' Gwaith Ieuenctid a'r gwaith pontio a wneir ganddo o ran gweithio mewn ysgolion
- Tensiynau eraill o ran cyflawni gwaith ieuenctid mewn ysgolion
- Llais y disgybl
- Addysg Gymunedol

Cynhwysir Llais y Disgybl ac Addysg Gymunedol oherwydd ymddengys eu bod yn feysydd y gallai gwaith ieuenctid gyfrannu'n fawr atynt.

## Gweithredu diwygiadau yn y Cwricwlwm

Daethom o hyd i dri adolygiad systematig a oedd yn arbennig o berthnasol. Mae adolygiad systematig Gouëdard et al (2020), ‘Curriculum reform: A literature review to support effective implementation', yn trafod y modd y rhoddir diwygiadau yn y cwricwlwm ar waith yng nghyd-destun polisïau addysg yn Rhyngwladol. Pwysleisir pa mor bwysig yw gweledigaeth addysgol glir, ymgysylltu â rhanddeiliaid a ffactorau cyd-destunol o ran llunio strategaeth weithredu gydlynol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm. Hefyd, pwysleisir bod angen llunio polisïau doeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal ag ystyried yr adnoddau sydd ar gael a'r trefniadau llywodraethu presennol. Tynnir sylw at rôl technoleg, strategaethau cyllido a chymorth sefydliadol o ran hwyluso newidiadau yn y cwricwlwm. Archwilir yr effaith a gaiff diwygio'r cwricwlwm ar arferion addysgu, trafodir yr heriau sy'n gysylltiedig â rhoi newidiadau ar waith mewn lleoliadau addysgol, a nodir pa mor bwysig yw cyfraniad athrawon a thwf proffesiynol wrth gyflwyno diwygiadau'n llwyddiannus.

Mae adolygiad systematig Gülçin Karakuş's (2020), “Curriculum Implementation Problems,” yn treiddio i'r heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu cwricwla mewn lleoliadau addysgol. Diffinnir materion penodol yn ymwneud ag athrawon, myfyrwyr, cynnwys y cwricwlwm a seilwaith ysgolion – sef materion sy'n llesteirio'r gwaith o weithredu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae'r pwyntiau allweddol yn cynnwys diffyg datblygiad proffesiynol i athrawon, gwybodaeth flaenorol a phriodoleddau amrywiol y myfyrwyr, cyfyngiadau amser o fewn y cwricwlwm, ac adnoddau annigonol mewn ysgolion. Mae'r adolygiad yn nodi pa mor bwysig yw mynd i'r afael â'r problemau hyn er mwyn sicrhau y gellir rhoi'r cwricwlwm ar waith yn llwyddiannus a gwella deilliannau addysgol. Awgrymir bod datrys y problemau hyn yn hollbwysig i lwyddiant y broses addysgol.

Ymhellach, mae'r adolygiad yn nodi bod angen cydweddu'r fframwaith gwerthuso ac asesu gydag unrhyw gwricwlwm newydd, ynghyd â darparu cyfleoedd digonol ar gyfer datblygiad proffesiynol ac addysg gychwynnol ddigonol i athrawon a rhoi dull system gyfan ar waith er mwyn sicrhau bod modd gweithredu'r cwricwlwm yn llwyddiannus. Y brif wers yw bod diwygio'r cwricwlwm yn broses gymhleth a bod angen ystyried llu o ffactorau, yn cynnwys datblygiad proffesiynol athrawon, ymreolaeth y cwricwlwm, a strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli newid, er mwyn sicrhau llwyddiant wrth weithredu yn ogystal â sicrhau deilliannau addysgol cadarnhaol.

Gan ysgrifennu cyn i'r cwricwlwm gael ei roi ar waith, ymddengys mai adolygiad Sinnema, Nieveen, a Priestley (2020) yw'r adolygiad mwyaf perthnasol, oherwydd mae'n ystyried gwersi y gallai Cymru eu dysgu o ran gweithredu'r cwricwlwm. Maent yn rhybuddio na ddylid benthyg polisïau o wahanol gyd-destunau heb fynd ati i ystyried y polisïau hynny'n feirniadol – oherwydd, heb eu hystyried yn y fath fodd, gellir arwain at bolisïau unffurf sy'n anwybyddu realiti'r gweithredu. Fodd bynnag, maent yn sôn am nifer o wersi pwysig. Yn gyntaf, trafodir pa mor bwysig yw ystyried y cwricwlwm fel ymarfer cymdeithasol a nodir yr amryfal haenau sy'n perthyn i'r system, sef:

- *Lefel Facro:* Lle caiff polisïau a manylebau'r cwricwlwm cenedlaethol eu cynhyrchu. Mae fframwaith y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol yn enghraifft – ond er bod ei gwmpas yn genedlaethol, mae'n dylanwadu ar arferion ar lefel feso.
- *Lefel Feso:* Arferion lefel ganol, megis llunio canllawiau i ategu datblygiad y cwricwlwm, a darparu arweinyddiaeth a chymorth ar gyfer gweithgareddau ysgolion. Yng Nghymru, mae gan endidau fel rhwydweithiau'r Ysgolion Arloesi a'r Consortia Rhanbarthol rôl hollbwysig yn hyn o beth.
- *Lefel Ficro:* Ar lefel yr ysgol. Mae'n cynnwys llunio dulliau cynhwysfawr ledled yr ysgol i sicrhau cydlyniant o ran y cwricwlwm, yn ogystal â datblygu cynlluniau gwaith manwl, cynhyrchu adnoddau addysgol, a rhoi'r adnoddau hynny ar waith yn yr ystafell ddosbarth.

Yna, maent yn ymhelaethu ar nifer o syniadau allweddol a syniadau trosglwyddadwy, yn cynnwys:

- *Cysyniadau'r Cwricwlwm:* Maent yn pwysleisio pa mor bwysig yw datblygu cysyniadau sy'n newid pwyslais er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu arferion cwricwlaidd. Beirniedir y syniad bod y cwricwlwm yn gynnyrch y dylid ei gyflwyno, a dadleuir y dylid cael dealltwriaeth sy'n newid pwyslais.
- *Arferion Atebolrwydd:* Maent yn tynnu sylw at yr effaith negyddol bosibl sy'n gysylltiedig ag arferion atebolrwydd sy'n bodloni cynulleidfaoedd allanol yn hytrach na bodloni meini prawf addysgol.
- *Dysgu Proffesiynol:* Maent yn dadlau bod angen digon o adnoddau ar gyfer darparu dysgu proffesiynol o'r radd flaenaf er mwyn gwella gallu athrawon i ymhél â'r cwricwlwm newydd.
- *Cyfalaf Cymdeithasol:* Maent yn pwysleisio rôl cyfalaf cymdeithasol wrth ddiwygio'r cwricwlwm a pha mor bwysig yw ymchwil o'r radd flaenaf er mwyn gwella'r modd mae rhwydweithiau cydweithredol yn gweithio.
- *Pwysigrwydd Gwybodaeth:* Maent yn tanlinellu pa mor bwysig yw gwybodaeth a'r ffaith bod angen elwa i'r eithaf ar y manteision sy'n perthyn i gwricwlwm hyblyg, gan fynd ati ar yr un pryd i leihau'r risgiau cynhenid.

I grynhoi, maent yn pwysleisio pa mor bwysig yw dealltwriaeth sy'n newid pwyslais, cydweithredu, atebolrwydd, dysgu proffesiynol a chyfalaf cymdeithasol. Hefyd, nodir bod angen rhoi dull cytbwys ar waith ar gyfer ystyried hyblygrwydd a risgiau wrth lunio'r cwricwlwm.

## Astudiaethau eraill a gynhaliwyd cyn rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith

Mewn astudiaeth gan Power et al. (2020), a gynhaliwyd cyn rhoi'r cwricwlwm ar waith, tynnwyd sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig â diwygio'r cwricwlwm yng Nghymru – pwysleisiwyd y bydd y cwricwlwm newydd yn rhoi pwysau ar adnoddau a soniwyd am y risgiau sy'n gysylltiedig â mwy o hyblygrwydd (Power et al., 2020). Rhagwelwyd mai proses gymhleth fyddai gweithredu'r cwricwlwm yn llwyddiannus, ac y byddai'n rhaid i wahanol randdeiliaid gydweithredu gyda'i gilydd, yn cynnwys ysgolion, awdurdodau addysg a'r llywodraeth (Power et al., 2020).

Mae awduron eraill yn dathlu'r modd mae'r cwricwlwm newydd yn integreiddio cerddoriaeth, y celfyddydau, dawns, drama, a ffilm a'r cyfryngau digidol ym 'Maes Dysgu a Phrofiad' y celfyddydau mynegiannol (Breeze et al., 2023). Mae Aldous et al. (2022) yn treiddio i'r modd y trafodwyd ac y gweithredwyd y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae Kools et al. (2018) yn pwysleisio pa mor bwysig yw datblygu ysgolion fel sefydliadau dysgu; dywedir bod strategaeth o'r fath yn hollbwysig o ran grymuso sefydliadau i weithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru yn effeithiol, a nodir bod angen creu amgylchedd cefnogol mewn ysgolion i hwyluso'r arloesi angenrheidiol.

## Gwerthuso'r modd y rhoddwyd y Cwricwlwm i Gymru ar waith:

Mae nifer o adroddiadau ac erthyglau wedi gwerthuso'r modd y rhoddwyd y Cwricwlwm i Gymru ar waith, gan ganolbwyntio ar safbwyntiau ysgolion ac athrawon (Evans, 2023, Thomas et al, 2023). Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- **Cynnydd a Heriau:** Soniodd uwch-arweinwyr am gynnydd da, yn enwedig mewn addysgeg a chydweithredu, ond nodwyd bod y cynnydd yn arafach oherwydd cymhlethdod y diwygiadau. Mae gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn broses ailadroddol, ac mae angen monitro ac ail-greu'n barhaus. Roedd rhai aelodau staff yn gyndyn o droi eu cefn ar fframweithiau a oedd wedi ennill eu plwyf, yn enwedig o ran asesu.
- **Ymdrechion Cydweithredol:** Darparodd clystyrau ysgolion effeithiol ganllawiau a chyfleoedd i gydweithredu. Roedd uwch-arweinwyr wedi dechrau'r gwaith o weithredu Addysg Gyrfaoedd a Phrofiadau sy'n Gysylltiedig â Byd Gwaith ac roeddynt yn croesawu'r ffaith bod Hanes Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi'i gynnwys.
- **Tegwch a Dulliau sy'n Canolbwyntio ar y Dysgwr:** Mae ysgolion yn canolbwyntio ar degwch ac maent wedi dechrau llunio'r cwricwlwm mewn modd sy'n canolbwyntio mwy ar y dysgwr. Defnyddir amryfal ddulliau i hysbysu rhieni ynglŷn â'r cwricwlwm. Caiff dysgwyr ysgolion cynradd flas ar ddysgu seiliedig ar bynciau.

- **Safbwyntiau Athrawon:** Nododd Evans (2023) fod angen rhaglen gydgysylltiedig ar gyfer dysgu proffesiynol, yn ogystal ag ymddiriedaeth yn y proffesiwn a chanllawiau clir. Rhybuddiodd na ddylid llethu athrawon gyda gormod o ddogfennau a phwysleisiodd pa mor bwysig yw cymorth proffesiynol a galluogedd.
- **Iechyd a Llesiant:** Pwysleisiodd Durden-Myers et al. (2024) fod angen dull strategol a chydweithredol, wedi'i deilwra ar gyfer cyd-destun pob ysgol. Er mwyn gweithredu'r cwricwlwm yn llwyddiannus, mae dyrannu amser, canllawiau a hyfforddiant digonol yn ofynnol.

I grynhoi, er mwyn gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn llwyddiannus mae angen addasu'n barhaus, a hefyd mae angen cydweithredu, darparu cymorth proffesiynol a chanolbwyntio ar degwch a dulliau sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Mae ymddiriedaeth, canllawiau clir a strategaethau teilwredig yn hanfodol ar gyfer goresgyn heriau a chyflawni deilliannau addysgol cadarnhaol.

## Arweinyddiaeth Addysgol a Gweithredu'r Cwricwlwm:

Mae'r llenyddiaeth yn tynnu sylw at y rôl hollbwysig sydd gan arweinyddiaeth addysgol mewn systemau ysgol llwyddiannus (Hallinger a Ko, 2016, Stevenson a Weiner, 2020). Trwy arwain y cwricwlwm yn effeithiol, gellir cael effaith fawr ar ddatblygiad y myfyrwyr – hynny yw, trwy gydweithredu gyda nhw, trwy eu grymuso a thrwy wneud penderfyniadau ar y cyd. Mae agweddau allweddol yn cynnwys gosod nodau ar y cyd, datblygu rhaglenni, staffio a dyrannu adnoddau.

**Arweinyddiaeth yng Nghymru:** Mae Marchant et al (2024) yn pwysleisio pa mor bwysig yw arweinyddiaeth yng Nghymru o ran diwygio'r cwricwlwm. Mae arweinyddiaeth effeithiol yn ategu'r gwaith o wella ysgolion a systemau – rhywbeth sy'n hollbwysig i'r Cwricwlwm i Gymru. Mae Reynolds a McKimm (2021) yn nodi bod datblygiadau diweddar, fel yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, yn cynnig gobaith ar gyfer ymdrin â materion rheoli ac arwain sydd wedi cael eu hesgeuluso'n hanesyddol. Cynigir chwe strategaeth ar gyfer datblygu arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru, sef:

- **Amrywio o fewn Ysgolion:** Pennu arferion da.
- **Arweinyddiaeth Addysgol:** Pwysleisio dulliau addysgu yn yr ystafell ddosbarth.
- **Strategaethau Cyd-destunol:** Addasu i gyd-destunau economaidd a chymdeithasol amrywiol.
- **Arwain Agweddau:** Cydnabod y cymhlethdod sy'n perthyn i arweinyddiaeth.
- **Syniadau Arloesol:** Annog syniadau gwreiddiol a gaiff eu llywio gan dystiolaeth.
- **Dibynadwyedd y System:** Sicrhau bod y system addysgol yn ddibynadwy.

**Dulliau Arwain:** Mae dulliau arwain amrywiol, yn cynnwys arweinyddiaeth sy'n ategu ymreolaeth, arweinyddiaeth sy'n gweddnewid, ac arweinyddiaeth gyfranogol, o fudd i arweinyddiaeth ysgolion. Mae arweinyddiaeth a rennir/arweinyddiaeth wasgaredig, ynghyd ag arweinyddiaeth gwneud penderfyniadau ac arweinyddiaeth sefyllfa, yn gwella perfformiad ac ansawdd ysgolion. Mae sawl awdur yn ffafrio 'meddwl trwy systemau' (Gurr, 2023, Shaked, H., a Schechter, C. (2016). 'Sources of systems thinking in school leadership', *Journal of School Leadership*, 26(3), 468-494. Mae meddwl trwy systemau, a elwir hefyd yn Arweinyddiaeth Systemau mewn Ysgolion, yn golygu arwain ysgolion trwy ddefnyddio cysyniadau meddwl trwy systemau.

**Adolygiadau Systematic:** Mae Day, Sammons a Gorgen (2020) yn pwysleisio bod arweinyddiaeth effeithiol mewn ysgolion yn effeithio ar drefn, diwylliant ac athrawon yr ysgol, a'i bod hefyd yn effeithio'n anuniongyrchol ar ddeilliannau'r myfyrwyr. Mae dimensiynau allweddol arweinyddiaeth lwyddiannus yn cynnwys diffinio gweledigaeth a gwerthoedd, gwella amodau addysgu a dysgu, a meithrin cydberthnasau oddi mewn ac oddi allan i gymuned yr ysgol. Mae'r heriau'n cynnwys rheoli ymddygiad, rheoli adnoddau'n strategol, a sicrhau llesiant y staff a'r myfyrwyr.

Mae Daniëls, Hondeghem a Dochy (2019) yn trafod arweinyddiaeth gyfarwyddol, arweinyddiaeth sy'n gweddnewid ac arweinyddiaeth wasgaredig mewn addysg. Mae arweinyddiaeth effeithiol yn canolbwyntio ar y cwricwla, a hefyd ar gyfarwyddyd, cyfathrebu, cydberthnasau, a'r modd y caiff diwylliant a hinsawdd yr ysgol eu llunio. Maent yn argymell y dylid integreiddio'r theorïau arwain hyn neu y dylid datblygu theori gyfunol gan fod astudiaethau'n dibynnu'n aml ar safbwyntiau hunangofnodedig y pennaeth. Ni cheir ymchwil ddigonol sy'n mynd ati i gymharu technegau datblygiad proffesiynol, eu heffeithiolrwydd, na'u trosglwyddedd. Dylai ymchwil yn y dyfodol fapio arferion cyfredol, ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid ac integreiddio cyd-destun yr ysgol. I grynhoi, mae arweinyddiaeth addysgol effeithiol yn amlweddog, ac mae'n cynnwys gwahanol ddulliau a strategaethau ar gyfer cynorthwyo i roi'r cwricwlwm ar waith a gwella perfformiad yr ysgol.

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac Arweinyddiaeth Ganol:

**Materion yn ymwneud â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn Arweinyddiaeth:** Mae Khalifa et al. (2018) yn trafod arweinyddiaeth frodorol a dad-drefedigaethol, gan nodi bod arferion cyfredol yn adlewyrchu gwaddol trefedigaethol yn aml. Maent yn pennu pum maes hollbwysig ar gyfer arweinwyr pobl ifanc frodorol a lleiafrifiedig, sef:

- Rhoi blaenoriaeth i hunanwybodaeth a hunanfyfyrio
- Gweithredu hunanbenderfyniaeth er mwyn grymuso'r gymuned
- Canolbwyntio ar werthoedd a lleisiau'r gymuned
- Gwasanaethu trwy allgaredd ac ysbrydolrwydd
- Mynd i'r afael â chyfunoliaeth trwy gyfrwng cyfathrebu cynhwysol

Mae'r meysydd hyn yn anelu at herio arferion trefedigaethol a hyrwyddo hunaniaethau myfyrwyr brodorol a lleiafrifiedig.

**Arweinyddiaeth Ganol:** Mae Fullan (2022) yn pwysleisio pa mor bwysig yw arweinyddiaeth ganol yn y system ehangach, gan gyd-fynd â Model Cyswllt yr Academi Arweinyddiaeth. Mae Lipscombe, Tindall-Ford a Lamanna (2021) yn nodi pedwar casgliad ynglŷn ag arweinyddiaeth ganol, sef:

1. Mae arweinyddiaeth ganol yn anodd ei diffinio
2. Mae'n amrywio o ran swyddi a chyfrifoldebau
3. Mae'n effeithio ar ymarfer athrawon, datblygiad timau, diwygio ysgolion, a dysgu proffesiynol
4. Mae angen darparu dysgu proffesiynol gwell i sicrhau bod arweinwyr canol yn gymwys

**Arweinyddiaeth Ysgolion yng Nghymru:** Ystyrir bod arweinyddiaeth ysgolion yng Nghymru yn gydweithredol ac yn weddnewidiol. Mae Egan a Keane (2018) yn trafod y modd mae arweinyddiaeth addysgol yng Nghymru wedi esblygu, gan nodi bod pwysigrwydd arweinyddiaeth addysgol yn cael ei gydnabod fwyfwy. Maent yn galw am rymuso arweinwyr ysgolion, yn ogystal â chanolbwyntio ar arweinyddiaeth gyfarwyddol a dysgu proffesiynol gydol oes. Mae Harris a Jones (2021) yn pwysleisio'r synergedd rhwng arweinyddiaeth wasgaredig ac arweinyddiaeth gyfarwyddol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddysgu sefydliadol a deilliannau myfyrwyr. Maent yn nodi bod angen rhaglenni arwain cyd-destun-benodol sy'n sensitif yn ddiwylliannol, ac maent yn pwysleisio pa mor bwysig yw seilio penderfyniadau ar dystiolaeth wrth ddatblygu arweinyddiaeth. I grynhoi, mae arweinyddiaeth addysgol effeithiol yng Nghymru yn golygu ymdrin â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, gwella arweinyddiaeth ganol, a datblygu rhaglenni arwain cyd-destun-benodol er mwyn gwella perfformiad yr ysgol a'r system.

## Arweinyddiaeth mewn Gwaith Ieuenctid:

Mae'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â rheoli ac arwain gwaith ieuenctid yn eithaf prin. Y gwaith y cyfeirir ato amlaf yw llyfr Jon Ord, sef "Critical Issues in Youth Work Management" (2011), lle trafodir y cyd-destun hanesyddol a damcaniaethol, ynghyd â materion ymarfer hollbwysig a dulliau rheoli mewn gwahanol leoliadau. Mae Harrison ac Ord (2011) yn nodi pa mor bwysig yw deall theorïau rheoli, ac maent yn honni nad yw nifer o reolwyr gwaith ieuenctid yn meddu ar hyfforddiant ffurfiol. Nodir pedwar dull damcaniaethol, sef theori Glasurol, theori Ddyneiddiol, theori Systemau a theori Wrth Gefn, gan bwysleisio bod angen ymwybyddiaeth feirniadol o strategaethau rheoli. Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru (2019) a'r cynllun gweithredu cysylltiedig yn cyfeirio at arweinyddiaeth systemau fel ffordd o rymuso pobl ifanc a'r sector. Fodd bynnag, nid yw'r dogfennau hyn yn nodi sut bydd gweithwyr ieuenctid yn cael eu hyfforddi a'u cynorthwyo i fod yn arweinwyr systemau.


**Dull Arweinyddiaeth Systemau:** Mae Harris (2020) yn pwysleisio pa mor bwysig yw diffinio arweinyddiaeth systemau'n glir wrth ddiwygio arweinyddiaeth addysgol a'r cwricwlwm yng Nghymru. Dylai arweinwyr systemau feddu ar sgiliau'n ymwneud â hwyluso, eirioli, gwella capasiti proffesiynol, a dylanwadu ar eraill. Dylent ddeall a rheoli newid oddi mewn ac oddi allan i'w cyd-destun, gan wthio ffiniau ymarfer proffesiynol. Yn ogystal â gwella'u sefydliad eu hunain, mae arweinwyr systemau'n anelu at wella'r system ehangach, yn cynnwys ysgolion a darpariaethau gwaith ieuenctid. Caiff y dystiolaeth ei chategoreiddio ar lefel facro a lefel ficro:

- **Lefel Facro:** Datrys problemau cymhleth ar draws sefydliadau ac ysgogi polisïau a fydd yn newid y system.
- **Lefel Ficro:** Canolbwyntio ar rolau a chyfrifoldebau arweinwyr systemau unigol mewn cyd-destunau penodol.

Gall arweinyddiaeth systemau effeithiol ategu newid a gwella perfformiad yr ysgol a'r system. Mae argymhellion ar gyfer yr Academi Arweinyddiaeth yn cynnwys canolbwyntio ar rôl Swyddogion Cyswllt fel arweinwyr systemau a chofnodi eu heffaith o fewn system addysg Cymru.

Mae Fullan (2020) yn ffigwr allweddol mewn arweinyddiaeth systemau, ac mae wedi dylanwadu ar yr Academi Arweinyddiaeth. Mae'n hyrwyddo dull newydd o ymdrin â diwygio addysgol, gan roi pwyslais ar ddiben moesegol, deall newid, adeiladu cydberthnasau, rhannu gwybodaeth a chreu cydlyniant. Mae Fullan yn pwysleisio pa mor bwysig yw eglurder wrth ymhél â mentrau newid ac mae'n rhybuddio na ddylid ceisio newid y diwylliant heb gael amcanion clir. Mae'n nodi bod angen i arweinwyr fynd i'r afael â phroblemau cymhleth, yn ogystal ag adeiladu cydberthnasau amrywiol a meithrin arweinyddiaeth ymhlith eraill. Mae model Fullan yn cynnwys nodweddion fel bod yn ddysgwr arweiniol, gwrando, dysgu mewn cyd-destun, a'ch gwneud eich hun yn hepgorol. Mae ei ddull yn anelu at wella gallu unigolion a grwpiau i wneud penderfyniadau gwell ac ymhél â'r broses newid.

**Model Arweinyddiaeth Fullers (Fuller, 2020)**




Mae'r llenyddiaeth sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn nodi tri phrif fodel, sef:

- **Modelau Swyddogaethol**: Canolbwyntio ar nodau prosiectau, gan dynnu sylw yn aml at y modd mae gwaith ieuenctid yn ategu ysgolion, ond gan anwybyddu'r materion gweithredol a'r ddynameg pŵer.
- **Modelau Gweithredol/Strwythurol:** Cynllunio gwasanaethau, cydberthnasau rhwng gwasanaethau ieuenctid ac ysgolion, a'u heffeithiau. Mae enghreifftiau'n cynnwys:
    - **Gweithwyr Ieuenctid mewn Ysgolion:** Cyflwyno rhaglenni – yn aml, rhai *ad hoc* sy'n ddibynnol ar gyllid.
    - **Rhaglenni a Gychwynnir gan Ysgolion:** Ysgolion yn mynd ar drywydd asiantaethau allanol ar gyfer rhaglenni ychwanegol.
    - **Canolfannau Ieuenctid mewn Ysgolion:** Canghennau ieuenctid sy'n cynnig gweithgareddau yn ystod ac ar ôl yr ysgol.
    - **Model Cynorthwyo Ieuenctid (Youthreach):** Profiadau addysgol cyfochrog ar gyfer pobl ifanc mewn perygl.
- **Modelau Hybrid:** Cyfuno agweddau swyddogaethol a gweithredol i wahanol raddau o lwyddiant.

Mae Alan Rogers (2014) yn nodi modelau addysg anffurfiol sy'n integreiddio dysgu ffurfiol a dysgu heb fod yn ffurfiol, ac sydd hefyd yn ymdrin â deilliannau anghymdeithasol ac yn ymhél â rhyngweithio deialogaidd. Mae'r modelau hyn yn pwysleisio rôl a chyfraniad amrywiol gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion.

## Modelau Swyddogaethol

Mae nifer o adroddiadau'n nodi rôl a chyfraniad amrywiol gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion o ran darparu gwasanaethau (Rogers, 2016, Arrad, 2015, Yr Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid, 2023, Youth Link (2023). Dyma grynodeb byr:

| Cyfraniad gwaith ieuenctid | Rogers (2016) | Yr Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid (2023) | Arrad (2015) | Youth Link (2023) |
|---|---|---|---|---|
| ***Cymorth Bugeiliol:*** Mae gweithwyr ieuenctid yn cynnig cymorth emosiynol ac maent yn addysgu sgiliau bywyd i fyfyrwyr agored i niwed, gan eu galluogi i ymdopi'n well yn yr ystafell ddosbarth. | ✖ | ✖ | ✖ | |
| ***Cyfleoedd i Ennill Cymwysterau:*** Maent yn cynnal rhaglenni achrededig ar gyfer myfyrwyr sy'n tangyflawni neu fyfyrwyr sy'n cael anhawster gyda gwersi prif ffrwd, gan anelu at eu cadw yn yr ysgol a'u hailintegreiddio mewn dosbarthiadau prif ffrwd pan fo modd. | ✖ | | ✖ | |
| ***Sgiliau Cyflogaeth:*** Mae gweithwyr ieuenctid yn cynnal cyrsiau'n ymwneud â datblygu CVs ac addysgu sgiliau ar gyfer y byd gwaith, fel cyfathrebu, sgiliau cyfweld a chwilio am swyddi. | ✖ | | ✖ | ✖ |
| ***Gwaith Pontio:*** Maent yn cynnig cymorth i blant Blynyddoedd 5 a 6 sy'n cael anawsterau, yn ogystal â chymorth ychwanegol drwy gydol y cyfnod pan fyddant yn symud i'r ysgol uwchradd ac yn eu blaen, fel y bo'n briodol. | ✖ | | ✖ | |
| ***Gwasanaethau Galw Heibio a Chymorth Un-i-Un:*** Maent yn cynnig cymorth mentora ac yn mynd i'r afael â phryderon neu faterion penodol, gan ategu llesiant emosiynol. | ✖ | | ✖ | |
| ***Cymorth i Deuluoedd:*** Maent yn meithrin cydberthnasau gyda rhieni/gofalwyr ac yn cynnig cysylltiad rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn gwella presenoldeb ac ymddygiad. | ✖ | ✖ | ✖ | ✖ |
| ***Cyflwyno Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac Addysg Rhyw a Chydberthynas:*** Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac Addysg Rhyw a Chydberthynas mewn grwpiau bach, gan feithrin sgiliau a llesiant. | ✖ | ✖ | ✖ | ✖ |
| ***Y Gymraeg, Diwylliant ac Addysg Dinasyddiaeth:*** Maent yn cyfrannu at yr agwedd hon ar y cwricwlwm, yn enwedig mewn ysgolion Cymraeg. | ✖ | ✖ | ✖ | |
| ***Addysg Cymheiriaid:*** Maent yn creu cyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu'n addysgwyr cymheiriaid mewn amrywiaeth o bynciau Addysg Bersonol a Chymdeithasol. | ✖ | | ✖ | |
| ***Mynediad Ehangach at Waith Ieuenctid Cymunedol, Gwirfoddoli a Gweithredu Cymdeithasol:*** Maent yn darparu cysylltiadau â phrosiectau ieuenctid cymunedol a chyfleoedd gwirfoddoli. | ✖ | ✖ | ✖ | |
| ***Fforymau a Chynghorau Ieuenctid:*** Maent yn cynorthwyo cynghorau ysgol ac yn meithrin sgiliau ar gyfer cymryd rhan mewn strwythurau llywodraethu ieuenctid. | ✖ | ✖ | ✖ | ✖ |
| ***Presenoldeb:*** Ymgysylltu ac ailymgysylltu ag addysg trwy gyfrwng gofal bugeiliol, allgymorth neu waith ieuenctid datgysylltiedig er mwyn ategu llesiant pobl ifanc a gwella'u presenoldeb. | | ✖ | | |
| ***Ymddygiad:*** Mae'r hyn sy'n digwydd gartref yn effeithio ar ymddygiad pobl ifanc yn yr ystafell ddosbarth. Gall gweithgareddau gyda chyfoedion a mentora un-i-un ategu datblygiad personol a chymdeithasol a helpu i ddelio ag ymddygiad lefel isel. Hefyd, defnyddir methodolegau gwaith ieuenctid mewn lleoliadau Darpariaeth Amgen. | | ✖ | | |
| ***Datblygu a Chyfoethogi:*** Cynyddu cyfleoedd dysgu oddi mewn ac oddi allan i'r ysgol. Mae gwaith ieuenctid yn cyflwyno dysgu wedi'i gynllunio trwy gyfrwng gweithgareddau cyfoethogi, yn cynnwys y celfyddydau a chreadigrwydd a delio â diffyg diogeledd bwyd. | | ✖ | | ✖ |
| ***Parodrwydd i Ddysgu:*** Mae gwaith ieuenctid yn helpu plant a phobl ifanc i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag dysgu, fel iechyd a llesiant gwell, delio â diffyg diogeledd bwyd ac ymgysylltu â dysgu mewn gwahanol leoliadau. | | | | ✖ |
| ***Llesiant Emosiynol a Chymdeithasol:*** Mae gweithwyr ieuenctid yn defnyddio dull sy'n ystyriol o drawma i wella llesiant emosiynol a chymdeithasol pobl ifanc, yn enwedig y bobl ifanc anoddaf eu cyrraedd. | | ✖ | | ✖ |

Mae adroddiad yr Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid yn cynnig model ar gyfer gwaith ieuenctid o'r radd flaenaf mewn ysgolion, gan gyfuno strategaethau gweithredu ac argymhellion polisi cenedlaethol, a chan roi pwyslais ar fynediad agored, mannau diogel, dulliau sy'n canolbwyntio ar y 'plentyn cyfan', cyfranogiad pobl ifanc, ymgysylltu â chymunedau, a datblygiad proffesiynol ar draws y sector.

## Modelau Gwaith Ieuenctid Hybrid mewn Ysgolion:

Mae Arrad (2015) yn nodi rolau amrywiol ar gyfer gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion, yn cynnwys:

- **Cymorth Bugeiliol:** Cynnig cymorth emosiynol a sgiliau bywyd.
- **Cyfleoedd i Ennill Cymwysterau:** Cynnal rhaglenni achrededig ar gyfer myfyrwyr sy'n tangyflawni.
- **Sgiliau Cyflogaeth:** Addysgu sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith.
- **Gwaith Pontio:** Cynorthwyo myfyrwyr i bontio.
- **Gwasanaethau Galw Heibio a Chymorth Un-i-Un:** Cynnig cymorth mentora a mynd i'r afael â materion penodol.
- **Cymorth i Deuluoedd:** Cysylltu'r cartref a'r ysgol er mwyn gwella presenoldeb ac ymddygiad.
- **Cyflwyno Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac Addysg Rhyw a Chydberthynas:** Addysgu addysg bersonol a chymdeithasol ac addysg rhyw a chydberthynas.
- **Y Gymraeg, Diwylliant ac Addysg Dinasyddiaeth:** Cyfrannu at y meysydd hyn o fewn y cwricwlwm.
- **Addysg Cymheiriaid:** Hwyluso addysg cymheiriaid yn ymwneud â gwahanol bynciau.
- **Mynediad Ehangach at Waith Ieuenctid a Gwirfoddoli:** Cysylltu â phrosiectau cymunedol.
- **Fforymau a Chynghorau Ieuenctid:** Ategu cynghorau ysgol a strwythurau llywodraethu ieuenctid.
- **Gweithio mewn Partneriaeth:** Cydweithredu ag asiantaethau i werthuso effeithiolrwydd y cymorth.

Mae modelau cyllido yn effeithio ar y modd y caiff gwaith ieuenctid ei weithredu mewn ysgolion. Mae'r dulliau'n cynnwys cyllid craidd, cyllid cyfunol, cyfraniadau gan ysgolion a chymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Mae dogfen y Prif Swyddogion Ieuenctid (2020) yn pwysleisio bod cyd-ddealltwriaeth rhwng addysgu a gwaith ieuenctid yn angenrheidiol ar gyfer partneriaethau llwyddiannus, a thynnir sylw at natur gydategol y ddau ddull.

## Enghreifftiau o Ddarpariaeth Gwaith Ieuenctid:

- Clybiau ar ôl ysgol
- Prosiectau celf a drama
- Prosiectau un-i-un
- Prosiectau chwaraeon a gweithgarwch corfforol
- Prosiectau achredu
- Prosiectau gwasanaethau gwybodaeth
- Prosiectau iechyd a llesiant
- Prosiectau'r cwricwlwm amgen
- Prosiectau cyfranogi/fforymau/cynghorau
- Prosiectau'r Gymraeg
- Cynlluniau gwyliau
- Prosiectau ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- Prosiectau dinasyddiaeth
- Prosiectau anableddau
- Prosiectau ar gyfer Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig
- Prosiectau Dug Caeredin

**Youth Link (2024) yn yr Alban:** Mae gwaith ieuenctid yn ategu parodrwydd i ddysgu, llesiant emosiynol a chymdeithasol, dysgu y tu allan i'r ysgol, trafodaethau ynglŷn â diffyg diogeledd bwyd, ymgysylltu â rhieni, cyfranogiad pobl ifanc, dysgu a chyrhaeddiad personol, a datblygiad sgiliau. Mae'r ddogfen "Developing Youth Work and School Partnerships" yn nodi bod gweithio mewn partneriaeth gyda phobl ifanc yn angenrheidiol o dan y "Cwricwlwm Rhagoriaeth".

Mae'r ddogfen yn nodi sut mae'r "Cwricwlwm Rhagoriaeth" a pholisïau eraill yn annog partneriaethau rhwng ysgolion a gwaith ieuenctid. Nodir y cyfnodau gweithredu a'r elfennau y gall gwaith ieuenctid helpu i'w cyflawni:

- **Cyfnod Cyffredinol:** Gwella meysydd ffurfiol y cwricwlwm, dysgu personol a chyfleoedd cyflawni, meithrin sgiliau a darparu cymorth pontio.
- **Uwch-gyfnod:** Meithrin sgiliau, cydnabod cyflawniadau, cynorthwyo i bontio tuag at gyrchfannau cadarnhaol a chynnig llwybrau cynnydd wedi'u teilwra.

## Gweithio mewn Partneriaeth – Gwerth Ychwanegol:

- Deilliannau gwell i blant a phobl ifanc trwy gyfrwng arbenigedd, sgiliau a gwybodaeth ar y cyd.
- Gwasanaethau a gydgysylltir yn well, defnyddio adnoddau yn y ffordd orau bosibl, gwella sgiliau ymarferwyr, cydberthnasau cryfach a gwell cyfleoedd i bobl ifanc.

## Nodweddion Gweithio'n Dda mewn Partneriaeth:

- Ymddiriedaeth a pharch ar y naill ochr a'r llall, diben a nodau clir, cyd-ddealltwriaeth o rolau, iaith broffesiynol gyffredin, cynllunio a gwerthuso ar y cyd, cyfathrebu agored a thrysori llais pobl ifanc.

**Dealltwriaeth Ysgolion o Waith Ieuenctid:** Mae dogfennau allweddol sy'n llywio dealltwriaeth arweinwyr ysgolion yn cynnwys:

- **Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion (2018):** Mae'n pwysleisio bod gwaith ieuenctid yn hawl gyffredinol
- **Gwaith Ieuenctid mewn Ysgolion yng Nghymru (2016):** Mae'n nodi'r manteision a ddaw i ran ysgolion yn sgil gwaith ieuenctid.
- **Y Strategaeth Gwaith Ieuenctid (2019):** Mae'n anelu at ddeall ymyriadau llwyddiannus gwaith ieuenctid.
- **Deall Gwerth Gwaith Ieuenctid a Gweithwyr Ieuenctid (2018):** Mae'n argymell y dylid cydnabod sgiliau gweithwyr ieuenctid.
- **Cwricwlwm i Gymru – pa fath o gyfraniad y gall Gwaith Ieuenctid ei wneud? (2023):** Mae'n pwysleisio bod angen ymestyn profiadau dysgwyr.

## Heriau:

- Dryswch ynghylch termau a ffocws addysgol gwaith ieuenctid.
- Mae angen mynegi'n gliriach beth yw rôl addysgol, cwricwlwm ac addysgeg gwaith ieuenctid.

## Ffocws Addysgol Gwaith Ieuenctid:

Yn aml, dywedir bod addysgeg gwaith ieuenctid yn addysg anffurfiol neu heb fod yn ffurfiol. Mae dysgu anffurfiol, sy'n digwydd yn barhaol ac yn anymwybodol yn aml, yn hollbwysig o ran llywio gwybodaeth a gwerthoedd. Mae'n cyfuno ag elfennau ffurfiol, gan gyfrannu at y 'cwricwlwm cudd'. Mae cydnabod rôl dysgu anffurfiol yn hollbwysig o ran deall y broses addysgol. Mae dysgu ffurfiol wedi'i strwythuro a'i sefydliadu; mae dysgu heb fod yn ffurfiol yn gyfundrefnol, ond yn hyblyg; mae dysgu anffurfiol yn anfwriadol ac yn dreiddiol. Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru (2019) yn diffinio'r mathau hyn mewn modd tebyg, ond mae'n pwysleisio'u heffaith ar addysgeg a deilliannau.

## Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid:

Mae'r Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol (Yr Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid, 2022) yn canolbwyntio ar ddatblygiad personol a chymdeithasol trwy gyfrwng cyfranogiad gwirfoddol. Mae elfennau allweddol yn cynnwys cyfranogi, cydraddoldeb, addysg a grymuso. Mae Ord (2018) yn dadlau y dylai gwaith ieuenctid roi blaenoriaeth i brosesau uwchlaw cynnwys, a nodir bod grymuso, cyfranogi, dewis, gwaith grŵp, dysgu arbrofol a meithrin cydberthnasau yn agweddau hanfodol. Mae'r elfennau hyn yn helpu i ddatblygu ymarfer gwaith ieuenctid, gan helpu hefyd i fynegi ei werth.

## Addysgeg Gwaith Ieuenctid

Mae athroniaeth addysgol gwaith ieuenctid yn amrywiol ac yn ddadleuol; addysgegau creadigol, beirniadol a chymdeithasol yw'r dulliau a hyrwyddir yn fwyaf cyffredin (Seal, 2019).

Mae **addysgegau creadigol** yn defnyddio'r celfyddydau i ennyn diddordeb pobl ifanc trwy hunanfynegiant ac arloesi (Kristen et al., 2021). Mae'r dull hwn yn cynnwys addysgu creadigol, addysgu er creadigrwydd, a dysgu creadigol, gan wella dychymyg, sgiliau datrys problemau, a chymhelliant y myfyrwyr (Alldred a Howard, 2022). Mae addysgegau creadigol yn creu profiadau


dysgu sy'n gweddnewid, gan helpu unigolion ifanc i oresgyn rhwystrau a meithrin sgiliau hanfodol fel beirniadaeth artistig a hunanfynegiant (Hickling-Hudson, 2013; Duval et al., 2023). Mae'r nodweddion allweddol yn cynnwys cynhyrchu syniadau, annog ymreolaeth a meithrin cydweithredu (Cremin a Chappell, 2019). Mae dulliau sy'n seiliedig ar y celfyddydau yn effeithio ar ddeilliannau personol, cymdeithasol ac addysgol, yn cynnwys addysg, sgiliau ac iechyd meddwl gwell (SQW a Phrifysgol Warwick, 2024).

Mae **addysgegau beirniadol** yn annog pobl ifanc i ddadansoddi'r byd a myfyrio arno, gan gwestiynu normau cymdeithasol a strwythurau pŵer (Seal a Smith, 2021). Mae'r dull hwn yn meithrin ymdeimlad o alluogedd a'r gallu i eirioli dros gyfiawnder cymdeithasol (Achilleos et al., 2021). Mae'r nodweddion allweddol yn cynnwys democratiaeth a chydraddoldeb mewn amgylcheddau dysgu, cwricwlwm hyblyg a grëwyd ar y cyd, themâu cynhyrchiol, cyfleoedd dysgu digymell, a meithrin gobaith a gweithredu newid (Seal a Smith, 2021). Mae addysgegau beirniadol yn gwella twf personol ac academaidd, gan gael effaith sylweddol ar ymddygiad y myfyrwyr yn ogystal â meithrin ymgysylltu democrataidd ac annog unigolion gwybodus sy'n ymwybodol o'u cymdeithas (Hunaepi et al., 2024). Hefyd, mae dulliau o'r fath yn integreiddio'n dda â thechnolegau digidol, gan fynd i'r afael ag effaith Deallusrwydd Artiffisial mewn addysg.

Mae **addysgegau cymdeithasol** yn rhoi pwyslais ar feithrin twf personol, academaidd a phroffesiynol, yn ogystal â meithrin gwerthoedd yn ymwneud â chyfrifoldeb cymdeithasol ac ymgysylltu dinesig (Eden, 2024). Mae'r dull hwn yn cynorthwyo pobl ifanc i dyfu fel unigolion ac ar y cyd, gan gydnabod a herio anghyfiawnderau cymdeithasol, meithrin cydnabyddiaeth, a grymuso unigolion ifanc i ddychmygu dyfodol amgen (DeJaeghere, 2019). Mae addysgeg gymdeithasol yn ategu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol, llesiant, a dinasyddiaeth, gan fynd i'r afael â materion fel bwlio, tlodi a hiliaeth (Pantazis a Styler, 2020). Mae'r prosesau craidd yn cynnwys ysgogi, gofalu, ac addysgu, gan helpu pobl ifanc i ganfod cymhelliant, ymgysylltu â materion cymdeithasol, a rhoi newid ar waith (Smith, 2016, 2019).

Yn aml, mae'r dulliau addysgegol hyn yn gorgyffwrdd ac yn ategu'r naill a'r llall yn ymarferol. Er enghraifft, efallai y bydd rhaglen gwaith ieuenctid yn defnyddio gweithgareddau creadigol er mwyn ennyn diddordeb pobl ifanc, eu hannog i feddwl yn feirniadol ynglŷn â'u rolau cymdeithasol, a meithrin ymdeimlad o gymuned a chydgyfrifoldeb. Gall dull integredig o'r fath fynd i'r afael â heriau cymdeithasol a grymuso unigolion ifanc i ddatblygu'n asiantau dros newid (Thomas, 2016; Kristen et al., 2021).

**Gwaith Ieuenctid, Dull Pedagogaidd, Gwasanaethau a'u perthynas â Meini Prawf Arolygu Estyn**



Gwelir bod Addysgegau Ffiniol yn y canol gan eu bod yn gwneud defnydd o'r holl draddodiadau hyn tra'n canolbwyntio ar y ffiniau a'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc mewn ysgolion.

Mae nifer o densiynau'n bodoli o ran cyflawni gwaith ieuenctid mewn ysgolion, yn bennaf oherwydd croestoriadedd systemau addysg ffurfiol ac arferion anffurfiol gwaith ieuenctid (Gormally et al., 2015; Johnson a Majewska, 2022; Rogers, 2014). Yn aml, mae sefydliadau dysgu ffurfiol yn anwybyddu pwysigrwydd dysgu anffurfiol 'bob dydd' sy'n digwydd y tu allan i gwricwla strwythuredig (Rogers, 2014). Gall yr amwysedd hwn arwain at ddibrisio addysg anffurfiol – rhywbeth nad ystyrir bob amser ei fod yn "ddysgu go iawn" sy'n haeddu cael ei gynnwys yn y cwricwlwm ffurfiol. Mae'r pwysau sy'n gysylltiedig â phrofion safonedig, cwricwla cenedlaethol a llwyth gwaith cynyddol athrawon yn culhau mwy fyth ar ffocws addysg ffurfiol (Johnson a Majewska, 2022).

Mae gwaith ieuenctid yn cynnig "gwybodaeth gudd" – sef gwybodaeth ddealledig ac arferion cyffredinol na chânt eu cydnabod yn aml mewn ysgolion (Gormally et al., 2015, 2019). Maent yn cynnwys:

- **Pwyslais ar allu:** Mae gweithwyr ieuenctid yn helpu pobl ifanc i ddeall eu grym a'u dewisiadau, gan greu cyfleoedd lle gallant fynegi eu safbwyntiau a chael eu clywed (Spence, Devanney a Noonan, 2006).
- **Dadansoddi anghydbwysedd grym:** Mae gwaith ieuenctid yn anelu at leihau anghydbwysedd grym, gan eirioli dros bobl ifanc a'u helpu i eirioli drostynt eu hunain (Gormally, Coburn a Bright, 2015; Alinsky, 1974).
- **Safbwyntiau cadarnhaol ynglŷn â phobl ifanc:** Mae gweithwyr ieuenctid yn herio trafodaethau negyddol ac yn helpu pobl ifanc i archwilio a newid labelau annheg (Corney, 2024).
- **Telerau ymrwymo gwahanol:** Meithrin perthynas â phobl ifanc, yn enwedig y rhai sy'n ddrwgdybus o oedolion, trwy drafod telerau ymrwymo'n barhaus (Harris a Seal, 2016; Davies, 2005).
- **Ymgysylltu â'r gymdeithas a'r gymuned:** Annog pobl ifanc i fod yn hollol ymwybodol o sefyllfaoedd cymdeithasol a'u hannog i weithredu o blaid cymdeithas fwy cyfiawn.

Mae tensiynau penodol yn cynnwys:

- **Egwyddor wirfoddol sy'n edwino:** Yn draddodiadol, mae gwaith ieuenctid yn dibynnu ar gyfranogiad gwirfoddol – rhywbeth a gaiff ei herio mewn addysg ffurfiol lle mae'r dewisiadau'n gyfyngedig (Davies, 2005; Jeff a Smith, 1999; Estyn, 2020).
- **Dull penodol neu dull cyffredinol:** Wrth ystyried gwaith ieuenctid, mae ysgolion o'r farn yn aml ei fod yn canolbwyntio ar reoli ymddygiad yn hytrach na chynnig gwerth addysgol (Gormally et al., 2015; Estyn, 2020).
- **Natur newidiol cydberthnasau:** Mae modd i'r cydberthnasau personol ac anffurfiol a gaiff eu meithrin gan weithwyr ieuenctid gael eu newid oddi mewn i amgylchedd strwythuredig yr ysgol, gan arwain at straen ac amwysedd (Morgan, Morgan a O'Kelly, 2008; Bloomer et al., 2022).
- **Mesur deilliannau:** Mae deilliannau gwaith ieuenctid – sef deilliannau ansoddol yn aml, a gaiff eu seilio ar dwf personol – yn anodd eu mesur mewn system ysgol sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau meintiol (de St Croix a Doherty, 2024).
- **Dynameg pŵer:** Gall llywio dynameg pŵer mewn ysgolion effeithio ar allu gweithwyr ieuenctid i feithrin perthynas gyda phobl ifanc sydd wedi'u labelu'n sefydliadol.
- **Cydnabod addysg anffurfiol:** Yn aml, ni chydnabyddir gwerth addysg anffurfiol oddi mewn i systemau ffurfiol ysgolion, a gall hyn arwain at densiynau rhwng nodau gwaith ieuenctid a dulliau addysg ffurfiol.
- **Dyrannu adnoddau:** Gall gwahaniaethau yn y modd y dyrennir adnoddau ar gyfer gwaith ieuenctid mewn ysgolion greu tensiynau – mae rhai meysydd yn wynebu cyfyngiadau tra mae meysydd eraill yn cael rhagor o gymorth.

Mae'r tensiynau hyn yn dangos pa mor heriol a chymhleth yw integreiddio gwaith ieuenctid mewn lleoliadau addysg ffurfiol. I grynhoi, mae'r tensiynau o ran gwaith ieuenctid mewn ysgolion yn deillio o'r angen i gysoni methodolegau anghyson, llywio dynameg pŵer, cydnabod gwerth addysg anffurfiol, diffinio rôl gweithwyr ieuenctid, ac ymdrin â gwahaniaethau yn y modd y dyrennir adnoddau. Mae hi'n hanfodol deall y tensiynau hyn, a mynd i'r afael â nhw, os ydym am weld gwaith ieuenctid yn cael ei integreiddio'n effeithiol mewn lleoliadau addysgol ffurfiol.

## Llais y Disgybl yng Nghymru: Y Cyd-destun

Mae llais y disgybl yng Nghymru wedi cael cryn sylw, yn enwedig yng nghyd-destun hawliau plant a'r modd y dylid cynnwys plant mewn prosesau penderfynu. Ers datganoli, mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio pa mor bwysig yw cynnwys plant mewn mentrau fel Cynulliad y Ddraig Ffynci a phlatfform ymgynghori Ieuenctid Cymru, a hefyd wrth sefydlu Comisiynydd Plant Cymru (Roberts, 2023). Mae Senedd Ieuenctid Cymru, a gymeradwyir gan y Senedd ers 2018, yn caniatáu i bobl ifanc 11-17 oed gymryd rhan mewn trefniadau llywodraethu. Mae'n ofynnol i lywodraethau lleol gynnwys plant mewn penderfyniadau, ac mae'n ofynnol i ysgolion gael cynghorau i hwyluso'r ymgysylltu hwn (Roberts, 2023).

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio llais y disgybl fel trefniant sy'n annog ac yn galluogi dysgwyr i gymryd rhan mewn penderfyniadau oddi mewn i leoliadau addysgol (Roberts, 2023). Mae cymhellion ar gyfer hyrwyddo llais y disgybl yn cynnwys dysgu sgiliau dinasyddiaeth (Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg, 2002; Adroddiad Crick, 1998), cyfoethogi dysgu a llesiant (Fielding a Ruddock, 2002; Demetriou, 2019), arfer democratiaeth (Flutter, 2007; Huddleston, 2007), a gwireddu hawliau plant (Noyes, 2005; Lundy, 2007).

Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae llais y disgybl yn dal i fod yn faes dadleuol mewn polisïau ac ymarfer (Seal, 2009). Er bod Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r syniad y dylid ymwreiddio hawliau plant mewn polisïau, darganfu Murphy et al. (2024) mai prin yw'r dystiolaeth ynglŷn â newid arferion a chwricwla addysgol. Mae Estyn wedi pennu arferion da o ran ymgysylltu â myfyrwyr, ond mae Comisiynydd Plant Cymru a Grŵp Monitro Cymru ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wedi mynegi pryderon ynghylch diffyg cysondeb wrth roi hyn ar waith.

Yn ystod COVID-19, dechreuwyd troi cefn ar gynghorau ysgolion etholedig ac arweiniodd hyn at gynyddu cyfranogiad, gan ddangos bod angen strwythurau mwy cynrychiadol (Huddleston, 2007; Comisiynydd Plant Cymru, 2022). Mae argaeledd adnoddau ar gyfer cyfranogiad myfyrwyr yn wasgaredig, ond mae integreiddio hawliau plant o fewn y Cwricwlwm i Gymru yn cynnig cyfle i gydgrynhoi a chreu adnoddau newydd i ategu cyfranogiad cynhwysfawr gan fyfyrwyr (Roberts, 2023).

## Llenyddiaeth ehangach yn ymwneud â Llais y Disgybl

Mae'r cysyniad sydd ynghlwm wrth lais y disgybl wedi esblygu'n fawr o dan ddylanwad amryfal bolisïau a strategaethau. Mae Hall (2017) yn tynnu sylw at ddau naratif anghyson: mae'r naill o'r farn bod llais y disgybl yn rhywbeth democrataidd a gweddnewidiol, tra mae'r llall yn ei weld fel cam strategol o fewn rhesymeg brynwriaethol. Mae Ngussa a Makewa (2014) yn dadlau bod model gweddnewidiol mewn perthynas â llais y disgybl angen newidiadau sylfaenol o ran y modd mae athrawon yn ymgysylltu â myfyrwyr ac yn amgyffred eu harferion. Mae Müller-Kuhn et al. (2021) yn nodi pum cyd-destun ar gyfer datblygu llais y disgybl, sef: addysg ddemocrataidd, hawliau plant, llesiant, dysgu, ac ymarfer yr ysgol. Maent yn nodi bod llais y disgybl yn cael ei ffurfioli'n aml trwy gyfrwng pethau fel cynghorau ysgol – sef elfennau y gall athrawon eu rheoli a chyfyngu arnynt. Gan ddefnyddio model cyfranogi Hart, darganfuwyd bod llais y disgybl yn docenistaidd yn aml, neu ei fod yn cael ei gamddefnyddio, a bod yr anghydbwysedd grym fel arfer yn ffafrio'r athrawon. Yn aml, caiff effeithiolrwydd dulliau llais y disgybl eu beirniadu ar sail pa un a allant arwain at newid gwirioneddol, ai peidio; yn aml, nid yw hyn yn digwydd, gan arwain at sinigiaeth ymhlith y myfyrwyr.

Datblygodd Holquist et al. (2023) fframwaith ar gyfer arferion llais y disgybl, gan ganolbwyntio ar strwythurau (lleoliad, ffocws a bwriad) a chydberthnasau (mynediad, cynrychioldeb, rolau ac ymatebolrwydd). Nod y fframwaith hwn yw mynd i'r afael â'r ddynameg pŵer a sicrhau bod arferion llais y disgybl yn arwain at newid ystyrlon. Mae Pearce a Wood (2016) yn cynnig fframwaith gwerthuso ar gyfer mentrau gweddnewidiol yn ymwneud â llais y disgybl, gan roi pwyslais ar ddeialog, cynhwysiant, a herio'r sefyllfa sydd ohoni. Maent yn nodi bod athrawon ac ysgolion yn wynebu cyfyngiadau sylweddol mewn perthynas â gweithredu mentrau o'r fath oherwydd grymoedd cymhellol sy'n rhoi blaenoriaeth i nodau perfformiadol (Ball, 2003).

Er y cydnabyddir pa mor bwysig yw llais y disgybl wrth arfer democratiaeth mewn ysgolion, darganfu Jones a Bubb (2021) fod llais y disgybl yn cael ei gyfyngu'n aml i gynghorau myfyrwyr, a bod cyfyngiadau amser ac amheuon ynghylch cymhwysedd yn llesteirio unrhyw ddefnydd ehangach ohono. Mae Baraoutsis et al. (2016) yn dadlau bod systemau addysgol tra phwysig yn cyfyngu ar allu athrawon i addasu eu harferion a chydweithredu gyda myfyrwyr. Mae Youth Link (2023) yn awgrymu y gall gweithwyr ieuenctid chwarae rôl hollbwysig o ran datblygu llais y disgybl trwy gynnwys pobl ifanc mewn prosesau penderfynu a thrwy hysbysu fframweithiau addysgol ynglŷn â'u safbwyntiau a'u hanghenion.

## Ysgolion Cymunedol

Mae ysgolion bro yng Nghymru wedi bod yn destun llawer o waith ymchwil, maent wedi cael eu datblygu'n eang ac mae ganddynt ddull datblygedig y gellir dangos ei fod yn gwella presenoldeb, ymddygiad, cyrhaeddiad a dyheadau plant a phobl ifanc (Llywodraeth Cymru, 2022, Rand, 2020). Mae'r dull hwn hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau teuluoedd a chymunedau, gan feithrin cymunedau cysylltiedig a llewyrchus sy'n llawn grym. Mae ysgolion fel sefydliadau dysgu yn hollbwysig o ran dod â'r cwricwlwm newydd yn fyw yng Nghymru (Kools et al., 2018). Mae astudiaethau wedi archwilio amryfal ddulliau ar gyfer ymgysylltu â chymunedau, gan fynd ati hefyd i archwilio effaith y dulliau hynny ar gydlyniant cymdeithasol (Hemming, 2018). Mae cyfranogiad cymunedol yn llywio diwylliant ysgolion i raddau helaeth, a cheir cysylltiad rhyngddo â chyrhaeddiad myfyrwyr (Hofman et al., 2002). Trwy gael gweledigaeth gyffredin, a thrwy fynd ati i gydweddu addysgu a dysgu gyda'r weledigaeth honno, gellir cael dylanwad cadarnhaol ar ddeilliannau myfyrwyr yng Nghymru ("Crynodeb Gweithredol", 2018).

Mae'r cysyniad sydd ynghlwm wrth gymunedau a sefydliadau sy'n dysgu wedi cael ei astudio, a phennwyd rhwystrau o ran eu creu mewn ysgolion traddodiadol, ynghyd â rhwystrau o ran yr arweinyddiaeth sy'n angenrheidiol i weddnewid yn llwyddiannus (Voulalas a Sharpe, 2005). Mae cynnydd tuag at weddnewid addysg yng Nghymru yn rhoi pwyslais ar

arweinyddiaeth a newid ar lefel y system (Harris, 2010). Mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn ganolog i broses ddiwygio 'tair lefel' Cymru, gan fynd i'r afael â 'chynffon hir' perfformiad mewn cymunedau o dan anfantais (Egan a Marshall, 2007). Mae Llywodraeth Cymru (2022) yn nodi tair elfen allweddol yn ymwneud ag Ysgolion Bro, sef:

1. **Ymgysylltu â theuluoedd:** Cynnwys teuluoedd ym mhenderfyniadau a bywyd yr ysgol.

2. **Ymgysylltu â'r gymuned:** Defnyddio cysylltiadau â grwpiau cymunedol a chynnig cymorth i aelodau'r gymuned.

3. **Ymgysylltu ag amryfal asiantaethau**: Gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau er mwyn chwalu rhwystrau sy'n atal dysgu.

Mae pedwar dull galluogi allweddol yn ategu'r elfennau hyn, sef: cydweledigaeth, arweinyddiaeth gydweithredol, cydberthnasau llawn ymddiriedaeth a dysgu cysylltiedig. Mae Estyn (2020) yn nodi wyth nodwedd sy'n perthyn i Ysgolion Bro, yn cynnwys canolbwyntio ar anghenion cymdeithasol, anghenion emosiynol ac anghenion iechyd; ymgysylltu â theuluoedd a chymunedau; darpariaeth integredig; a hyfforddiant amlddisgyblaethol. Mae arweinyddiaeth mewn ysgolion cymunedol yn golygu cael gweledigaeth gref, dealltwriaeth o heriau cymunedol, a chydweithredu gyda theuluoedd a chymunedau er mwyn gwella cyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc (Estyn, 2020). Mae gwahanol ffyrdd o ddehongli 'ymgysylltu â chymunedau' yn golygu bod y datblygiadau'n cael eu hysgogi'n aml gan arweinwyr unigol a chanddynt ddiben moesol cryf (Estyn, 2020).

Mae llenyddiaeth sy'n ymwneud â gwaith ieuenctid yn tynnu sylw at sinigiaeth ymhlith pobl ifanc a chymunedau tuag at fentrau cyfranogi ac ymgysylltu, yn aml oherwydd profiadau a gawsant yn y gorffennol lle cafodd eu lleisiau eu hallgáu neu eu hanwybyddu (Seal, 2019; Smith, 1999). Er gwaethaf hyn, mae cyfranogi'n ystyron gyda chymunedau a phobl ifanc yn gwbl ganolog i waith ieuenctid a gwaith cymunedol. Mae dulliau traddodiadol o ymgysylltu â rheini mewn ysgolion wedi cael eu beirniadu am freintio gwerthoedd dosbarth canol ac am fethu ag ystyried amrywiaeth, gan ganolbwyntio'n aml ar blant unigol neu arweinwyr cymunedol presennol yn hytrach na chanolbwyntio ar weddnewid yr ysgol yn ehangach law yn llaw ag adfywio'r gymuned (Campbell et al., 2016; Shiffman, 2018; Pappas, 2012). Mae Love (2019) yn gofyn cwestiynau hollbwysig y dylai ysgolion cymunedol eu hystyried wrth ymgysylltu â grwpiau a ymyleiddiwyd yn hanesyddol, ac mae'n pwysleisio bod angen mynd i'r afael â gorthrwm systemig a sicrhau bod lleisiau ac arbenigedd pobl ifanc, teuluoedd a chymunedau'n cael eu hystyried o ddifrif wrth wneud penderfyniadau.

Mae canllawiau ychwanegol a ryddhawyd ers cyhoeddi'r canllawiau gwreiddiol ar Ysgolion Bro (Llywodraeth Cymru, 2022a) yn cysylltu Ysgolion Bro â chyfarwyddebau polisi ehangach, yn cynnwys y Cwricwlwm i Gymru, gan bwysleisio rôl bwysig o ran delio ag effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol (Llywodraeth Cymru, 2022b). Mae papur trafod gan Swyddogion Cyswllt yr Academi Arweinyddiaeth (2023) yn canolbwyntio ar rôl arweinyddiaeth addysgol o ran cyflawni gweledigaeth Ysgolion Bro, a nodir bod angen cynllunio strategol, cyllid, a dull arwain cydweithredol. Mae'r Swyddogion Cyswllt yn argymell y dylai Ysgolion Bro gynnwys pob gwasanaeth a phob rhanddeiliad – nid arweinwyr ysgolion yn unig – er mwyn sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Maent yn pwysleisio pa mor bwysig yw cydgyfrifoldeb ac arweinyddiaeth gydweithredol, lle canolbwyntir ar y deilliannau gorau i blant a phobl ifanc. Dylai'r dull hwn gynnwys rhieni a gofalwyr y tu allan i oriau traddodiadol yr ysgol er mwyn lleihau effaith tlodi a gwella cyrhaeddiad. Mae'r argymhelliad olaf yn ailadrodd pa mor bwysig yw arweinyddiaeth ysgolion ym mholisïau Ysgolion Bro, fel dull hollbwysig o wella ysgolion o bob math, nid ysgolion mewn ardaloedd amddifad iawn yn unig. Mae'n cyd-fynd â dulliau Fullan (2020) a Harris (2020) o ymdrin ag arweinyddiaeth a newid addysgol, gan bwysleisio rolau arweinwyr eraill o ran cynyddu deilliannau (Yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, 2022).

# 3. Canfyddiadau

## Deall y Cwricwlwm i Gymru

Yn gyffredinol, roedd barn rheolwyr ynglŷn â'r cwricwlwm newydd yn gadarnhaol, ac roeddynt yn gwerthfawrogi ei ddull addasol a modern. Yn ôl un rheolwr, mae'n

> **"rhywbeth sy'n llawer mwy addas i'r byd modern, syniadau mwy addas a chreadigol, cydweithio, meddwl am eu rôl yn y gymdeithas."**

Tynnodd rheolwr arall sylw at ei gydbwysedd, gan ddweud:

> **"Mae'n cynnig gwell cydbwysedd mewn addysg. Nid dysgu gwers er mwyn pasio arholiad yn unig, ond dysgu gwers y gallwch ei defnyddio i archwilio mwy ar y byd."**

Roedd rhai yn gwerthfawrogi'r ffaith ei fod yn herio dulliau traddodiadol, a dywedodd un:

> **"Mae'n ffordd agored iawn o feddwl am bethau. Ac mewn sawl ffordd, mae'n dweud wrth athrawon – ydych chi wedi meddwl am eich gwaith?"**

Roedd rheolwyr gwaith ieuenctid o'r farn bod y cwricwlwm yn cyd-fynd yn dda ag egwyddorion gwaith ieuenctid, megis bod yn addysgiadol, yn gyfranogol, yn gynhwysol, yn rymusol ac yn fynegiannol. Ond roedd rheolwyr gwaith ieuenctid hefyd o'r farn nad oeddynt yn cael eu cynnwys yn y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm. Yn ôl un rheolwr:

> **"Er bod egwyddorion a chynnwys y cwricwlwm yn cyd-fynd yn dda â Gwaith Ieuenctid, ni chafodd gwaith ieuenctid ei gynnwys yn y trafodaethau a oedd yn ymwneud â datblygu'r cwricwlwm."**

Ategir y farn hon gan adroddiad Better Together yr Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid (2023), lle nodir bod y cwricwlwm wedi'i ddatblygu *ochr yn ochr* â gwaith ieuenctid, yn hytrach na *chyda* gwaith ieuenctid.

## Gwaith strategol ar lefel genedlaethol – y realiti

Roedd nifer o reolwyr a gweithwyr ieuenctid o'r farn mai rhywbeth tocenistaidd oedd eu cynnwys. Yn ôl un cyfranogwr:

> **"Rydw i'n credu bod yna ryw syniad bob pawb yn gwneud hyn gyda'i gilydd. Ond mewn gwirionedd, nid yw hynny'n wir o gwbl."**

Tynnodd cyfranogwr arall sylw at yr ymdrech i gael cydnabyddiaeth, gan ddweud:

> **"Roedd gwaith ieuenctid yn amlwg yn ei absenoldeb. Felly, unwaith eto, bu'n rhaid inni guro ar y drws a dweud – arhoswch am eiliad, mae gwaith ieuenctid yn rhywbeth cadarnhaol."**

Hefyd, nododd y cyfranogwyr fod gweithredu'r cwricwlwm wedi canolbwyntio ar ysgolion, a dywedodd un:

> **"Mae angen inni ystyried addysg yn ei chyfanrwydd, yn hytrach nag ystyried ysgolion yn unig a'r modd mae ysgolion yn darparu addysg."**

Pwysleisiwyd bod angen eiriolwyr gwaith ieuenctid ar bob lefel o'r llywodraeth, gan gydnabod maint bach y sector a'i bresenoldeb strategol cyfyngedig. Fel yr esboniodd un cyfranogwr,

> **"Fel sector, rydym yn ceisio cyflawni y tu hwnt i'r disgwyliadau er mwyn gallu cymryd rhan yn y sgyrsiau hynny."**

Nodwyd hefyd y diffyg cydraddoldeb proffesiynol mewn ymarfer a pholisïau addysg a dywedwyd bod gwaith ieuenctid yn cael anhawster i gael gafael ar y cyllid a'r cymorth sydd ar gael i staff addysgu. Yn ôl un rheolwr,

> **"Rydym wedi bod yn ceisio cael gafael ar rywfaint o gymorth gan Lywodraeth Cymru trwy gyfrwng yr hawl dysgu proffesiynol… ond dyw gwaith ieuenctid yn cael dim byd."**

## Gweithwyr ieuenctid yn gweithredu ar lefel strategol

Er bod angen i weithwyr ieuenctid ac ysgolion gydweithredu'n fwy strategol, cydnabyddir nad yw gweithwyr ieuenctid yn rhoi blaenoriaeth i waith strategol bob amser. Dyma a nododd un cyfranogwr:

> **"Mae popeth yn dechrau gyda chydweithredu ac nid ydym yn dda iawn am wneud hynny. Rydym fel pe baem yn gweithio mewn seilo yn ein priod feysydd, ond ni allwn gydgysylltu pethau."**

Yn aml, mae gweithwyr ieuenctid yn rhoi blaenoriaeth i ryngweithio wyneb yn wyneb gyda phobl ifanc. Fel yr esboniodd un cyfranogwr,

> **"Rydym yn gwneud y gwaith hwnnw'n feunyddiol, a chan nad oes ganddyn nhw amser neu gan eu bod yn rhy wylaidd i ddweud yn wahanol, pobl fel ni sy'n bachu ar bob cyfle i dalu teyrnged iddyn nhw."**

Caiff y ffocws hwn ar weithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc ei adlewyrchu yn yr amharodrwydd cyffredinol i symud i rolau rheoli, fel y nododd cyfranogwr arall:

> **"Does yna fawr neb yn hyrwyddo gwaith ieuenctid ar y lefelau uchaf. Un rheswm am hyn yw'r ffaith ein bod eisiau gweithio gyda phobl ifanc; ond wrth esgyn i lefel strategol, dydych chi ddim yn gallu gweithio gyda phobl ifanc."**

Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod y term "arweinyddiaeth" yn fwy addas i waith ieuenctid, gan bwysleisio arweinyddiaeth wasgaredig ledled y sefydliad.

> **"Nid arweinyddiaeth o angenrheidrwydd, oherwydd os yw arweinyddiaeth yn wasgaredig, yna mae i'w gael ar draws y sefydliad, gan wneud yn siŵr bod eraill yn y sefydliad yn gallu ysgwyddo rolau, cyfrifoldebau rheoli, unrhyw beth i ddweud y gwir."**

Hefyd, mae dirywiad gwaith ieuenctid dros gyfnod maith wedi effeithio ar flaenoriaethau strategol.

> **"Mae'r sector wedi paratoi ar gyfer wynebu anawsterau, oherwydd mae wedi mynd trwy gyfnodau eithriadol o anodd. Ond mae gennym sector o hyd."**

Hefyd, ceir ymdeimlad o fethu gwybod sut i gymryd rhan yn strategol.

> **"Sut mae sefydliadau eraill fel gwaith ieuenctid yn gallu cymryd rhan mewn gwaith cyflawni? Rydym ar ddeall bod y drws ar agor, ond allwn ni ddim dod o hyd iddo."**

Ar nodyn cadarnhaol, mae'r ffaith y ceir gweinidog â chyfrifoldeb penodol a chynghreiriaid gwleidyddol yn cynnig potensial.

> **"Rydym yn lwcus bod gennym weinidog y Gymraeg ac addysg, sydd â pholisi gwaith ieuenctid yn rhan o'i bortffolio."**

Dywedir yn aml fod yr Alban yn enghraifft o wlad lle mae gwasanaethau ieuenctid mewn sefyllfa well yn wleidyddol.

> **"Yn yr Alban, mae Gwasanaethau Ieuenctid mewn sefyllfa well o lawer yn wleidyddol o gymharu â ni yng Nghymru."**

Mae gwaith ar werthuso'r Cwricwlwm Rhagoriaeth yn yr Alban yn dangos nifer o bethau cadarnhaol. Dangosir bod gan waith ieuenctid rôl amlweddog a'i fod yn cael ei drysori am rymuso pobl ifanc. Fodd bynnag, gall rôl gwaith ieuenctid fod yn aneglur, ac o dro i dro caiff ei ostwng i'r 'ail adran' fel petai, gan arwain at ddiffyg gwerthfawrogiad a diffyg adnoddau (Gormally et al., 2019; Gallea, 2021; Still, 2024).

## Dysgu proffesiynol

Mynegodd y cyfranogwyr bryderon ynglŷn â diffyg cydraddoldeb proffesiynol o ran cyfleoedd dysgu proffesiynol ar gyfer gweithwyr ieuenctid o gymharu ag athrawon. Mae'r anghydraddoldeb hwn yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwaith ieuenctid a'i arweinwyr. Fel y dywedodd un cyfranogwr,

> **"Rydym wedi bod yn ceisio cael gafael ar rywfaint o gymorth gan Lywodraeth Cymru trwy gyfrwng yr hawl dysgu proffesiynol. O ran y swm o arian a roddir i staff addysgu i ategu eu dysgu, eu datblygiad a'u llesiant – sef cyfanswm o oddeutu £27 miliwn y flwyddyn – dyw gwaith ieuenctid yn cael dim byd."**

Dim ond oddeutu £200k y flwyddyn a roddir i'r sector gwaith ieuenctid ar gyfer dysgu proffesiynol. Mae'r ffigur hwn yn atgyfnerthu'r diffyg cydraddoldeb ac yn cyfrannu at y rhwystredigaeth a deimlir ymhlith arweinwyr gwaith ieuenctid. Y farn oedd y dylid mynd i'r afael â hyn:

> **"Rydym yn lwcus bod gennym weinidog y Gymraeg ac addysg, sydd â pholisi gwaith ieuenctid yn rhan o'i bortffolio. Felly mae gennym fan cychwyn. Ond o'r fan hon y daw'r rhwystredigaeth – mae'r mater ar y rhestr, ond nid yw'n cael sylw haeddiannol."**

Mae'r gallu i gael gafael ar ddysgu proffesiynol o'r radd flaenaf yn hollbwysig o ran gwella deilliannau addysgol (Jones, 2020). Fodd bynnag, nid yw gweithwyr ieuenctid yn gallu cael mynediad at y prosiect hawl ymholi cenedlaethol, sy'n ffactor allweddol o ran gwella ysgolion a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru.

## Gweithio ar lefelau rhanbarthol a lleol

Roedd y cyfranogwyr yn amheus ynglŷn â gweithio gyda chonsortia ysgolion rhanbarthol oherwydd y profiadau a gawsant yn y gorffennol:

> **"Gyda chanlyniad adolygiad cyfredol Llywodraeth Cymru o'r haen ganol mewn addysg, rydw i wedi awgrymu wrth y Bwrdd Gwaith Ieuenctid na ddylem ganolbwyntio ar gonsortia rhanbarthol o gwbl – rydym wedi gwneud hynny yn y gorffennol, ond eu cylch gwaith nhw yw gwella ysgolion. Maen nhw wastad yn dweud nad ydynt eisiau ymhél â gwaith ieuenctid gan mai gwella ysgolion yw eu cylch gwaith."**

Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod undebau'n cynnig llwybr ymgysylltu gwell:

> **"Gallem droi at grwpiau penaethiaid ac undebau. Efallai y dylem ymgysylltu ag Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, oherwydd mae'r undebau'n siŵr o fod o gwmpas ni waeth be fydd yn digwydd i'r consortia. Nid ydym yn cael ein gwahodd i gymryd rhan mewn trafodaethau yn yr arena addysg ffurfiol."**

Y consensws oedd y dylid gweithio gydag ysgolion ar lefel leol, gan fod y cwricwlwm yn cael ei lunio'n lleol. Ond ymddengys fod ymgysylltu â chyrff llywodraethu ysgolion yn esgor ar heriau:

> **"Ar sail fy mhrofiad fy hun, mae cyrff llywodraethu yn rhy 'ddiddos' ac nid ydynt mor effeithiol ag y gallent fod. Felly, yn awtomatig, rydw i'n credu y dylid ystyried penaethiaid, penaethiaid cymorth bugeiliol, cyfarwyddwyr ysgolion."**

## Meithrin cydberthnasau unigol heb ddibynnu arnynt

Mae gwaith ieuenctid yn rhoi pwys mawr ar feithrin cydberthnasau gyda phobl ifanc, yn ogystal â chydberthnasau proffesiynol (Jeffs a Smith, 1999). Roedd y cyfranogwyr o'r farn y dylai gweithwyr ieuenctid feithrin cydberthnasau gydag ysgolion, gan fod hynny'n talu ar ei ganfed:

> **"Mae cydweithio â'r ail ysgol gyfun fwyaf yng Nghymru yn dipyn o gamp. Chi a'ch tîm yn meithrin y cydberthnasau personol hynny ac yna'n profi eich gwerth. Dyna'r cam nesaf, ac yna cynnal y gwaith dros gyfnod maith. Mae'n arbed llawer o amser ac ymdrech."**

Fodd bynnag, mae dibynnu ar gydberthnasau unigol yn gallu arwain at broblemau os bydd pobl yn symud yn eu blaen. Mae angen cydberthnasau mwy systematig a strwythurol:

> **"Trefniant gweithio cydweithredol rhwng gwaith ieuenctid ac ysgolion yn hytrach na dibynnu ar gydberthnasau. Oherwydd yr hyn sydd gennym nawr yw model cydberthynas, ac os bydd un o'r bobl sy'n rhan o'r gydberthynas honno yn symud yn ei flaen, bydd y gydberthynas yn dod i ben. Felly, rydym angen rhyw fath o system neu broses."**

Caiff hyn ei ategu gan lenyddiaeth sy'n ymwneud â'r maes. Mae Fullan (2020) a Harris (2020) yn pwysleisio pa mor bwysig yw meithrin cydberthnasau i arweinwyr sy'n cyflawni ac yn llywio newid. Maent yn hyrwyddo dull strategol, gan weithio y tu allan i ffiniau traddodiadol i esgor ar newid yn effeithiol a chan fabwysiadu dulliau micro a macro i ddatblygu cydberthnasau (Harris, 2020).

## Gweithredu

Er bod nifer o'r cyfranogwyr o'r farn bod gweledigaeth y cwricwlwm yn gadarnhaol, dywedasant nad oedd canllawiau digonol ar gael. Roeddynt o'r farn na cheir cydbwysedd iawn rhwng y canllawiau ar y naill law, a'r modd y dehonglir y canllawiau hynny'n lleol ar y llaw arall.

> **"Yn amlwg, mae'r cwricwlwm wedi cael ei ysgrifennu gan rywun sy'n coleddu syniadau mawr. Ond mae llawer o bobl angen rhagor o ganllawiau, rhagor o ganiatâd, rhagor o lasbrintiau, er mwyn gallu rhoi'r pethau hyn ar waith. A dyw'r canllawiau hynny ddim ar gael, mewn gwirionedd."**

O ganlyniad, roedd nifer o'r cyfranogwyr o'r farn eu bod angen caniatâd i roi cynnig ar bethau newydd ac i gymryd risgiau:

> **"Mewn rhai trafodaethau'n ymwneud a'r cwricwlwm a'r modd y dylid bwrw ymlaen â'r cwricwlwm, sylwais fod pobl angen caniatâd. Mae llawer o bobl yn aros am ganiatâd."**

Er bod gweithwyr ieuenctid ac ysgolion yn amheus ynglŷn ag ymgysylltu â chonsortia rhanbarthol, soniodd arweinwyr ysgolion yn gadarnhaol am weithio ar draws ysgolion ac ar draws awdurdodau lleol. Gallai trefniadau o'r fath fod yn fuddiol, yn enwedig pan gâi'r holl bartïon eu cynnwys, oherwydd ni fyddai'r atebolrwydd yn syrthio'n gyfan gwbl ar yr ysgol. Mae adroddiad Thompson (2023) yn ategu hyn, gan nodi bod clystyrau cryf o ysgolion â chydberthnasau effeithiol yn darparu canllawiau, sicrwydd a chyfleoedd i gydweithredu.

## Yr arweinyddiaeth sy'n angenrheidiol i weithredu

Mynegodd y cyfranogwyr bryderon ynglŷn â'r arweinyddiaeth sy'n angenrheidiol i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Yn ôl Fullan (2020), gall hyn arwain at amodau anhrefnus, a hefyd mae'n pwysleisio pa mor bwysig yw hi i arweinwyr feithrin arweinyddiaeth ymhlith eraill. Roedd hwn yn faes heriol i rai cyfranogwyr, ac roeddynt o'r farn bod caniatâd yn fater arweinyddiaeth y mae angen ei raeadru i lawr:

> **"Mae nifer o bobl yn teimlo braidd yn ofnus ac yn bryderus ynglŷn â hyn. Rydw i'n credu mai rhan o'r dull arwain yw rhoi'r caniatâd i bawb. Rydw i'n credu bod angen rhaeadru'r lefel honno o ddealltwriaeth i lawr i bobl eraill yn y sefydliad – hynny yw, maent wedi cael y caniatâd i gymryd risg i roi cynnig ar bethau newydd."**

Y farn oedd bod prosesau penderfynu presennol yn rhy fiwrocrataidd i ddiwallu anghenion ystwythder. Yn aml, mae gan addysg ffurfiol ddulliau cynllunio blynyddol penodedig y mae'n rhaid i Waith Ieuenctid gyd-fynd â nhw, hyd yn oed pan fo cylchoedd gwaith ieuenctid yn wahanol:

> **"Problem flynyddol yw'r ffaith nad ydym yn cyd-fynd â'u strwythurau rheoli. A chan mai ni yw'r sector unigryw, mae'n rhywbeth rydym yn gorfod ei reoli bob tro. Pwy sydd eisiau bod yn rhan o'r fath drefniant?"**

Mae hyn yn cyd-fynd â chysyniad Fullan (2020) o ran bod yn 'hyddysg yn gyd-destunol' a deall diwylliant sefydliadol fel 'dysgwyr arweiniol' wrth weithredu. Ystyriwyd bod modelau blaenorol ar gyfer rheoli newid wedi dyddio, a bod angen dulliau newydd lle byddai arweinyddiaeth ganol yn cynyddu'r cysylltiadau ar draws y system. Datblygodd De-Noble (2018) fodel damcaniaethol i ategu'r dull 'arweinyddiaeth ganol' hwn, gan fynd i'r afael â materion a gysylltir fel arfer â gweithredu.

## Rhuthro i weithredu a blaenoriaethau anghyson

Mae rhuthro'r broses weithredu, ynghyd â blaenoriaethau anghyson, wedi effeithio ar ddulliau arwain. Roedd rhai arweinwyr ysgolion o'r farn nad oedd ganddynt amser na chyfle i wneud yn fawr o'r weledigaeth newydd:

> **"Roedd athrawon yn ceisio creu a llunio cynlluniau sesiwn a fyddai'n cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd. Ond does ganddyn nhw ddim amser na chyfle i wneud hyn. Nid diffyg parodrwydd sydd ar fai, ond y pwysau ychwanegol."**

Oherwydd y diffyg cyfle hwn i feddwl, collwyd rhai newidiadau sylfaenol a oedd ymhlyg yn y cwricwlwm:

> **"Roedd gofyn i ysgolion greu eu cwricwlwm eu hunain yn rhywbeth grymusol, ond arweiniodd hefyd at lawer o bwysau, gan beri iddynt ddilyn modelau penodedig."**

Ar lefel leol, er bod pobl wedi croesawu gweledigaeth y cwricwlwm, roedd cydymffurfio yn destun pryder:

> **"Mae'r syniadau'n wych; ond ar lefel leol, rhaid cofio beth sy'n rhaid i ysgolion ei wneud i gydymffurfio, ac mae disgwyliadau cliriach mewn meysydd fel presenoldeb a chyrhaeddiad yn cael blaenoriaeth."**

Ym marn rhai, roedd y cwricwlwm yn ychwanegu at y pwysau a oedd ar eu hysgwyddau'n barod:

> **"Mae yna lawer o bwysau arnom. Roedd athrawon yn ceisio cydweddu cynlluniau sesiwn â'r cwricwlwm newydd, ond nid oedd ganddynt y gallu na'r amser i wneud hynny."**

Mae hyn yn adleisio trafodaeth Nieveen a Priestley ynglŷn ag arferion atebolrwydd, lle'r aeth ysgolion ati i geisio atebion cyflym yn hytrach na meddwl yn strategol:

> **"Roedd athrawon ac awdurdodau'n ceisio dod o hyd i atebion a theimlo bod ganddynt ganiatâd i fynd i'r afael â'r cwricwlwm newydd."**

Gallai'r pwysau i gydweithredu ddatblygu'n rhywbeth tocenistaidd, gydag ysgolion yn defnyddio partïon cyfarwydd yn hytrach na manteisio ar ffyrdd newydd o feddwl:

> **"Maen nhw o dan bwysau gwirioneddol i gydweithredu, ond mae meddwl am waith ieuenctid yn rhywbeth hollol ar wahân iddyn nhw."**

Hefyd, cysylltwyd arweinyddiaeth â phwysau perfformio, gan arwain at ddychwelyd at hen ffyrdd:

> **"Mae'r cwricwlwm yn hyrwyddo arweinyddiaeth wasgaredig, ond mae profiad yn dangos bod ysgolion yn dychwelyd at ddulliau rheoli hierarchaidd neu orawdurdodol."**

Darganfu Thomas et al. (2023) fod staff yn gyndyn o droi eu cefn ar fframweithiau a oedd wedi ennill eu plwyf, yn enwedig o ran asesu. Oherwydd pwysau cymhleth, mabwysiadodd ysgolion 'feddylfryd argyfwng', gan ddychwelyd at ddulliau arwain gorawdurdodol:

> **"Mewn meysydd â mwy o bwysau, mae ysgolion yn dychwelyd at fodelau goroesi."**

Yn eironig, awgryma'r llenyddiaeth fod arweinyddiaeth wasgaredig a chydweithredol yn hollbwysig mewn argyfwng, gan bwysleisio strategaeth ymatebol, cyfrifoldeb ar y cyd a rhwydweithio colegaidd (Chatzipanagiotou a Katsarou, 2023). Nododd un cyfranogwr ymateb negyddol pobl ifanc i ddulliau gorawdurdodol, gan ofyn am ragor o gynhwysiant a chlymau cymunedol:

> **"Mae nifer o ysgolion yn hierarchaidd ac yn orawdurdodol. Nid yw pobl ifanc yn ymateb yn gadarnhaol i'r elfennau hyn. Mae angen i ysgolion fod yn groesawgar, yn gyffrous ac yn rymusol."**

Er mwyn mynd i'r afael â phresenoldeb, roedd arweinwyr o'r farn bod angen arweinyddiaeth ddemocrataidd a gwasgaredig:

> **"Mae ysgolion â lefelau presenoldeb gwell yn cynnwys y rhieni a'r gymuned. Maent yn ymhél â'r gymdeithas i raddau mwy."**

Daeth profiadau negyddol i ran pobl ifanc ar ôl i'r ysgol gynnwys eu rhieni a'r gymuned:

> **"Maen nhw'n dweud popeth wrth fy rhieni, gan waethygu fy iechyd meddwl. Pur anaml maen nhw'n dweud rhywbeth cadarnhaol."**

Nodwyd bod Casnewydd yn enghraifft gadarnhaol o awdurdod lleol sy'n ymgysylltu effeithiol. Mae Striepe a Cunningham (2021) yn cydnabod bod angen theorïau a modelau i fynd i'r afael ag anwadalrwydd, ansicrwydd ac amwysedd mewn arweinyddiaeth addysgol.

## Yr angen i roi'r gorau i fabwysiadu 'meddylfryd argyfwng'

Pwysleisiodd un arweinydd pa mor bwysig yw ymgysylltu'n rhagweithiol:

> **"Trafodwyd yn helaeth y modd y dylem ddal pobl ifanc, plant, rhieni a'n rhanddeiliaid tra maen nhw 'lan yr afon' yn hytrach nag ar ôl iddyn nhw gyrraedd y dyfroedd gwyllt neu pan fyddan nhw'n sefyll ar ddibyn y rhaeadr, sef pan fyddan nhw mewn sefyllfa argyfwng."**

Aeth y grŵp ffocws gwaith ieuenctid ati i drafod y cylch 'ymateb i argyfwng' mewn ysgolion, gan arwain at ymyriadau byrdymor. Fe wnaethant ddatblygu model clwstwr gydag arweinyddiaeth wasgaredig, a oedd yn canolbwyntio ar gamau cynnydd i bobl ifanc. Nododd y staff pa mor bwysig yw myfyrio a chynllunio:

> **"Mae'r staff yn ymgyfarwyddo â chamau cynnydd, maent yn nodi sut mae'r plant yn dod yn eu blaen, maent yn edrych ar bolisïau ar gyfer pob maes, cysylltiadau ag ysgolion uwchradd, arferion a rennir a phosibiliadau dysgu."**

Disgrifiodd un gweithiwr natur hirdymor y prosiect hwn:

> **"Mae'r clwstwr rydw i'n rhan ohono yn datblygu hyn. Mae'n waith parhaus, ond gydag ymrwymiad gan yr ysgol uwchradd, byddant ar eu hennill. Mae'n eithaf cadarnhaol. Mae gennym lwybr hir o'n blaenau."**

Mae'r heriau'n cynnwys profi effeithiolrwydd ymyriadau heb droi at fesurau byrdymor:

> **"Mae angen inni ymwreiddio'r pethau hyn, ond nid ydym bob amser yn ddysgwyr moesegol. Mae olrhain cynnydd yn her; ond eto i gyd, rydym yn dal i deimlo'r angen i ddangos tystiolaeth o'r hyn a wnawn."**

Pwysleisiodd y grŵp pa mor bwysig yw bod yn ddysgwyr moesegol ac osgoi atebion cyflym. Casglodd y grŵp astudiaethau achos hirdymor er mwyn pennu tueddiadau ac arferion gorau.

## Yr angen am ragor o amser a meddwl dyfnach

Un pryder mawr oedd diffyg ymwybyddiaeth o brosiectau lleol oherwydd toriadau a thwf y sector gwirfoddol. Roedd angen rhagor o amser er mwyn gallu gweithio o ddifrif mewn partneriaeth.

> **"Rhaid ichi roi cymorth gwirioneddol ddiysgog sy'n galluogi'r gwasanaeth i weithio gyda phawb er mwyn gallu meddwl trwy'r pethau hyn."**

Er mwyn gwneud hyn, rhaid cael newidiadau diwylliannol dyfnach a rhaid mabwysiadu dulliau arwain gwahanol. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cynrychioli newid mawr mewn diwylliant:

> **"Tasg heriol yw meddwl sut beth fydd addysg yn y dyfodol. Mae'n her enfawr i athrawon – addysgu mewn ffordd agored trwy gynnwys pobl ifanc neu droi'n ôl at yr hen ffyrdd."**

Roedd rhai yn gwrthwynebu arweinyddiaeth wasgaredig:

> **"Yn ystod Diwrnod Arweinyddiaeth, cyflwynwyd y model 'cwmpawd ar gyfer bywyd', gan ganolbwyntio ar alluoedd a chyrhaeddiad personol. Roedd yna rywfaint o wrthwynebiad, ond y syniad oedd cynorthwyo plant a phobl ifanc i gyflawni eu nodau."**

## Datgloi potensial arweinyddiaeth

Roedd gweithwyr ieuenctid yn hoff iawn o'r Rhaglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Gwaith Ieuenctid, a gymeradwyir gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, gan ei bod yn helpu i'w grymuso:

> **"Mae gan bethau fel y Rhaglen Arweinyddiaeth a Rheolaeth ar gyfer Gwaith Ieuenctid a threfniadau cyfnewid dysgu proffesiynol yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol rôl enfawr o ran grymuso gweithwyr ieuenctid."**

## Cyfraniad gwaith ieuenctid: mynd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth

Roedd gweithwyr ieuenctid yn ymwybodol o feysydd lle gallant gyfrannu at y Cwricwlwm i Gymru, yn cynnwys mynd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth:

> **"Er bod athrawon yn dda iawn am ddeall y bobl ifanc sydd o'u blaenau, maent yn tueddu i ganolbwyntio ar un maes penodedig. Gall y sector ieuenctid arbenigo a mynd i gyfeiriadau gwahanol."**

Gallant ychwanegu at y set sgiliau sy'n angenrheidiol i'r cwricwlwm newydd:

> **"Rydym yn meddu ar y sylfaen wybodaeth a'r gallu i archwilio meysydd penodol, gan ddarparu ac ychwanegu at y set sgiliau a gaiff plant yn yr ysgol a chan fodloni'r pedwar diben,"**

## Cydnabod bod dull gwaith ieuenctid yn addas i weithredu'r cwricwlwm

Fe wnaeth y grŵp ffocws gwaith ieuenctid gydnabod bod angen mynd ati'n well i hyrwyddo'u dull a'r modd y gallant gyflawni'r cwricwlwm newydd. Mae elfennau craidd, fel meithrin uchelgais, dysgu gydol oes, creadigrwydd, dinasyddiaeth foesegol a hyder, yn greiddiol i waith ieuenctid. Mae dull arbrofol gwaith ieuenctid yn hanfodol:

> **"Mae a wnelo gwaith ieuenctid â dysgu arbrofol, iechyd a llesiant, y celfyddydau mynegiannol, PSC ac ati. Mae'r meysydd hyn yn fara beunyddiol i waith ieuenctid, ond efallai fod athrawon yn teimlo'n anghyfforddus wrth gyflwyno rhai ohonynt."**

Mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn pethau fel y celfyddydau, crefftau, chwaraeon a gweithdai seiliedig ar faterion, yn yr ysgol ac mewn clybiau ieuenctid, lle canolbwyntir ar lesiant. Yn ôl un person ifanc:

> **"Mae ysgolion yn oeraidd iawn pan ddaw hi'n fater o ddelio ag iechyd meddwl bechgyn/dynion."**

Awgrymodd gweithwyr ieuenctid y dylid rhoi profiadau i bobl ifanc – hynny yw,  profiadau na fyddent yn eu cael fel arfer.

## Cyfrannu at drefniadau ariannol

Gall gwaith ieuenctid gyfrannu'n strategol, yn enwedig o ran sicrhau amryfal ffynonellau cyllid:

> **"Rydym yn mynd ati'n gyson i ddod o hyd i wahanol ffyrdd o gael arian gan 40 o ffynonellau, gan glymu popeth ynghyd gyda thameidiau o linyn. Nid wyf yn credu bod y sector ysgolion yn cydnabod hyn yn ddigonol."**

## Cyfraniad o ran arweinyddiaeth

Mae gwaith ieuenctid yn cynnig modelau arwain gwerthfawr, gan wneud yn fawr o arweinyddiaeth sy'n gweddnewid ac arweinyddiaeth wasgaredig, er gwaethaf yr heriau sy'n wynebu'r sector:

> **Mae gennym arweinwyr gweddnewidiol mewn swyddi strategol, ynghyd ag ymdeimlad cryf o arweinyddiaeth ddirprwyol, gan alluogi gweithwyr ieuenctid i fod yn adweithiol ac yn ymatebol."**

Mae sefydliadau bach yn elwa ar arweinyddiaeth wasgaredig oherwydd yr angen am ymatebion cyflym:

> **"Mewn sefydliadau bach, ceir mwy o gyfleoedd i roi arweinyddiaeth wasgaredig ar waith, oherwydd rhaid ymateb yn y trydydd sector."**

Mae arweinyddiaeth gwaith ieuenctid yn canolbwyntio ar bobl ifanc:

> **"Mae angen i arweinyddiaeth gwaith ieuenctid ddechrau a gorffen gyda phobl ifanc wrth ei galon a'i graidd. Mae angerdd a gwytnwch yn allweddol."**

## Llais y myfyriwr

Gall gwaith ieuenctid helpu i ymestyn lleisiau myfyrwyr a rhieni, gan herio cynghorau ysgol traddodiadol:

> **"Mae cynghorau ysgol yn cynnig llwyfan i bobl ifanc. Ond i ba raddau mae cynghorau o'r fath yn adlewyrchu pob person ifanc mewn gwirionedd?"**

Roedd pobl ifanc o'r farn nad oedd eu llais yn cael ei werthfawrogi:

> **"Mae gennym gyngor ysgol, ond does dim byd yn deillio ohono. Mae cyfoedion sydd ddim yn eich hoffi yn ei gwneud yn anos ichi leisio eich barn."**

Pwysleisiodd gweithwyr ieuenctid pa mor bwysig yw deall pam nad yw pobl ifanc yn mynychu'r ysgol a pha mor bwysig yw delio â phroblemau fel bwlio yn gyntaf. Nododd y cyfranogwyr wersi y gellir eu dysgu gan y sector preifat:

> **"Fyddai sefydliadau'r sector preifat ddim yn anwybyddu'r bobl maen nhw'n gweithio ar eu rhan. Fe fydden nhw'n gofyn i'r bobl hynny beth yw eu barn ynglŷn â'r ddarpariaeth.**

Mae gwaith ieuenctid yn cydnabod bod pobl ifanc sydd wedi cael profiadau gwael mewn addysg yn coleddu barn sinigaidd yn aml:

> **"Mae pobl ifanc yn ymateb i barch a chyfleoedd grymuso. Os ydym yn dal i ddefnyddio lleoliadau traddodiadol, gorawdurdodol, does syndod eu bod yn cilio."**

Roedd pobl ifanc o'r farn bod gweithwyr ieuenctid yn eu trin yn wahanol:

> **"Mae gweithwyr ieuenctid yn trin pobl ifanc fel unigolion a chanddynt eu meddyliau a'u teimladau eu hunain"**

## Meysydd i'w datblygu

***Pontio rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd***

Nodwyd bod y diffyg cyswllt rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd y broblem:

> **"Mae'r diffyg cyswllt rhwng addysg gynradd ac addysg uwchradd yn arwain at broblemau."**

Hefyd, soniwyd am ddulliau addysgegol gwahanol a maint ysgolion uwchradd:

> **"Mae ysgolion cynradd yn meithrin llawer mwy ar y disgyblion. Mae'r diffyg cyswllt sy'n perthyn i ysgolion uwchradd, ynghyd â'u maint, yn golygu na chaiff y disgyblion eu meithrin i'r un graddau."**

Gall hyn arwain at broblemau i brosiectau ieuenctid sydd, yn draddodiadol, yn darparu ar gyfer pobl ifanc 13-19 oed. Ond soniwyd am enghreifftiau llwyddiannus:

> **"Fe wnaethom gynnal prosiect gydag ysgol gynradd, sef prosiect a oedd yn ymwneud â'r cwricwlwm newydd. Bu'r prosiect hwnnw'n llwyddiant oherwydd roedd gan y pennaeth ddiddordeb ynddo."**

Gofynnwyd hefyd am ffyrdd gwell o bontio allan o ysgolion uwchradd:

> **"Yn achos pobl ifanc nad ydynt yn mynd i goleg neu brifysgol, does yna ddim system gadarn ar eu cyfer, dim system sy'n eu cyfeirio at sefydliadau gwaith ieuenctid."**

## Yr angen i weithio ar lythrennedd digidol a deallusrwydd artiffisial

Roedd gweithwyr ieuenctid o'r farn fod llythrennedd digidol a deallusrwydd artiffisial yn feysydd a gaiff eu hesgeuluso yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae'n angenrheidiol i bobl ifanc ddysgu sut i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn gyfrifol, oherwydd mae'n amhosib ei wahardd.

## Tensiynau gwaith ieuenctid mewn ysgolion ar lefel strategol

Problem gyffredin oedd y ffaith nad yw ysgolion bob amser yn deall beth yw gwaith ieuenctid:

> **"Mae gwaith ieuenctid yn addysg, ond yn aml caiff ei roi i'r naill ochr."**

Roedd nifer o'r farn fod ysgolion yn credu mai rhyw fath o weithgaredd hamdden yn unig yw gwaith ieuenctid:

> **"Mae pobl yn dwyn delweddau o denis bwrdd a byrddau pŵl i'r cof, heb ddeall beth mae gwaith ieuenctid yn ei olygu mewn gwirionedd."**

Roedd canfyddiad ysgolion yn amrywio:

> **"Mae rhai ysgolion yn groesawgar; dyw eraill ddim yn deall y broses."**

Ymddengys fod addysg ffurfiol yn broblemus iawn yn aml:

> **"Mae sectorau eraill yn deall gwaith ieuenctid yn gyflymach; ond mewn addysg ffurfiol, mae'n destun rhwystredigaeth barhaus."**

Cafodd addysg ffurfiol ei beirniadu am beidio â rhoi blaenoriaeth i ddeall gwaith ieuenctid, gan chwilio yn hytrach am atebion cyflym:

> **"Yn hytrach na gweithio gyda gweithwyr ieuenctid sy'n deall hyn oll, maen nhw'n ceisio eu trawsnewid eu hunain i weithio fel gweithwyr ieuenctid."**

Dywedodd un cyfranogwr y dylai gwaith ieuenctid fynegi'n well beth yw ei werth i addysg ffurfiol:

> **"A ydych yn gofyn i benaethiaid ysgolion beth yw gwaith ieuenctid a pha un a allant ymgysylltu ag ef? Dylai pobl o'r sector egluro beth yn union mae gwaith ieuenctid yn ei wneud."**

## Â phwy mae gwaith ieuenctid yn ymgysylltu a beth yw ei ddull?

Ym marn nifer o'r cyfranogwyr, dim ond wrth ddelio â rhai pobl ifanc arbennig – yn aml, pobl ifanc yr ystyrir eu bod yn achosi problemau – y bydd ysgolion yn gweithio gyda gweithwyr ieuenctid.

> **"Y gred yw bod gwaith ieuenctid yna ar gyfer 'pobl ifanc o fath arbennig' – dyw hyn ddim yn wir, ond weithiau mae'n anodd mynegi/newid y canfyddiadau hynny."**

Mae hyn yn adlewyrchu tensiwn mewn gwaith ieuenctid (Davies, 2003) – hynny yw, tensiwn rhwng bod yn wasanaeth cyffredinol neu'n wasanaeth wedi'i dargedu. Er y gall targedu arwain at stigmateiddio, mae pob person ifanc angen gwasanaethau gwaith ieuenctid, ac yn wir, mae gan bob person ifanc hawl i gael gwasanaethau o'r fath. Mae gweithwyr ieuenctid yn deall pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio, gan feithrin dealltwriaeth ddofn o ddynameg gymdeithasol (Gormally). Yn ôl un cyfranogwr:

> **"Mae nifer o bobl ifanc sydd ar y cyrion wedi dioddef gwahaniaethu ac wedi ymddieithrio, ac maent yn eithaf amheus o bawb sy'n cynrychioli awdurdod lleol."**

Tynnodd pobl ifanc sylw at wahaniaethau rhwng gweithwyr ieuenctid ac athrawon:

> **"Mae athrawon yna i addysgu, ond prif swyddogaeth gweithwyr ieuenctid yw diogelu pobl ifanc a gweithredu fel oedolyn arall yn eu bywyd – rhywun y gallant ymddiried ynddo."**
>
> **"Mae gweithwyr ieuenctid yna i wrando arnom a cheisio ein deall. Ni chaf fy nhaflu mas o'r clwb ieuenctid am resymau gwirion, fel gwisgo clustlysau."**
>
> **"Dylai'r naill efelychu'r llall – dylai gweithwyr ieuenctid addysgu mwy a dylai athrawon geisio bod yn fwy dynol."**

Pan ofynnwyd pa newidiadau y byddai gweithwyr ieuenctid yn eu gwneud mewn ysgolion, awgrymwyd y canlynol:

> **"Mwy o ryddid – pynciau, mwy o hyder, gadael i'r disgyblion dywys y dysgu."**

Soniodd un cyfranogwr am ymestyn hybiau gwybodaeth:

> **"Hwb ar-lein i bob athro. Nid i rieni yn gymaint, ond i athrawon ac i blant. Rydw i'n gwneud llawer iawn o waith gyda gwybodaeth."**

# 4. Trafodaeth a Dadansoddiad

## Safbwyntiau ynglŷn â'r cwricwlwm newydd

Yn gyffredinol, ystyrir bod y cwricwlwm yn rhywbeth cadarnhaol a bod ganddo'r potensial i weddnewid. Yn ôl adroddiad yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (2024):

> **"The curriculum is a pivotal step towards positive educational reform, with a collective anticipation for its ability to improve educational outcomes for all."**

**Gweithredu'r cwricwlwm**

## Ymgysylltu ar lefel genedlaethol

Ar lefel y llywodraeth, ni chynhwyswyd gwaith ieuenctid mewn modd strategol yn y broses o ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae enghreifftiau o gynnwys gwaith ieuenctid yn dal i fod yn afreolaidd, yn enwedig ar lefel ranbarthol. Yn ôl adroddiad yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (2024):

> **"Youth Work services are not funded, well understood or integrated into the wider education sphere to have any impact on CfW developments."**

Ni cheir cydnabyddiaeth strategol o rôl arweinwyr gwaith ieuenctid o ran datblygu a gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Mae angen i lunwyr polisïau sicrhau bod pob arweinydd yn y sector addysg yn cael ei ystyried a'i gynnwys yn llwyr wrth ddatblygu polisïau.

> **"The importance of collaborative efforts between schools, the youth sector, FE, HE, support, and educational partners at all levels is a key lever to develop and support leaders in fully realizing the CfW reforms" (Yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, 2024).**

Mae angen i lunwyr polisïau a'r llywodraeth gymryd camau er mwyn ymgysylltu â phartneriaid strategol allweddol, yn cynnwys arweinwyr gwaith ieuenctid. Mae model Swyddogion Cyswllt yr Academi Arweinyddiaeth a'r adolygiad gwella ysgolion a gynhaliwyd yn ddiweddar (Llywodraeth Cymru, 2024) yn opsiynau gweithredu ymarferol, ond mae hi'n hollbwysig cael cynrychiolaeth o arweinwyr yn y trafodaethau. Mae Fullan (2020) yn pwysleisio bod angen cynnal trafodaethau cynhwysol er mwyn cyflawni dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru. Byddai darparu hyfforddiant ar y cyd i arweinwyr ledled y sector addysg (Estyn, 2024), ynghyd â chylch gwaith ehangach ar gyfer y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (yn cynnwys y sectorau Gwaith Ieuenctid ac Addysg Bellach), yn arwain at wella dealltwriaeth a chydweithredu. Byddai hyn yn galluogi athrawon a gweithwyr ieuenctid i ddatblygu eu gwaith ymholi y tu allan i'r diwrnod ysgol a gweithredu agweddau ar y Cwricwlwm i Gymru o fewn y gymuned. Yn gyffredinol, mae angen rhagor o gymorth ar lefel polisi ac ar lefel strategol, ac mae angen i wahanol adrannau yn Llywodraeth Cymru ystyried gwaith ieuenctid a phobl ifanc pan fyddant yn diwygio polisïau allweddol.

## Ymgysylltu ar lefel ranbarthol

Ymddengys fod rhan o'r bwlch yn digwydd ar lefel ranbarthol. Efallai fod ysgolion, a hwythau heb ganllawiau digonol, yn gyndyn o gymryd camau unigol rhag ofn iddynt wneud camgymeriadau. Mae adroddiad diweddar yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn gofyn am sicrwydd ar lefel yr haen ganol:

> **"School leaders need reassurance from the middle tier that the design and methods of assessment being developed as part of CfW are supporting the national dialogue surrounding students' destinations to accommodate future employability needs."**

Ymddengys mai consortia rhanbarthol yw'r lle i gael canllawiau a gweithio ar y cyd, ond mae ysgolion yn amheus ohonynt (Dylan, 2024) ac maent wrthi'n cael eu hadolygu (Llywodraeth Cymru, 2024). Mae'r pryderon yn cynnwys diwylliant 'gwneud i' yn hytrach na 'gwneud gyda', ansawdd amrywiol y cymorth, a biwrocratiaeth ddiangen. Fodd bynnag, caiff gweithio ysgol-i-ysgol a phartneriaethau awdurdodau lleol eu cefnogi, ac mae'r gweinidog yn argymell cydweithredu uwch-leol (Llywodraeth Cymru, 2024).

## Ymgysylltu ar lefel leol

Roedd y cyfranogwyr o'r farn bod y gwaith o weithredu'r cwricwlwm wedi cael ei ruthro, gan beri i ysgolion ganolbwyntio ar gydymffurfio a defnyddio gwasanaethau ieuenctid i lenwi bylchau yn hytrach na chymryd rhan mewn meddwl dyfnach. Mae adroddiad yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn cadarnhau hyn:

> **"Schools are working in silos that are misaligning priorities, reducing the flow of information between schools and sectors resulting in disjointed decision making" (Yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, 2024, t5).**

Mae'r dull hwn yn groes i ysbryd y cwricwlwm. Mae'r ddogfen 'Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022' (2020) yn rhestru pethau na ddylid eu gwneud, fel symud yn rhy gyflym tuag at weithredu'r cwricwlwm a defnyddio dulliau thematig arwynebol. Mae Fullan (2020) yn cadarnhau bod angen arweinyddiaeth ar bob lefel, yn cynnwys lefel ganol a lefel ranbarthol.

## Cyfraniad gwaith ieuenctid at gynllunio strategol ar gyfer y cwricwlwm mewn ysgolion

Mae dogfen y Prif Swyddogion Ieuenctid (2023) yn nodi sut gall gwaith ieuenctid helpu i gyflawni'r pedwar diben, ond nid yw'n nodi sut dylid cynnwys gwasanaethau ieuenctid yn y gwaith o lunio a chynllunio'r cwricwlwm. Mae'r Canllawiau ar gyfer Ysgolion Bro yn pwysleisio pa mor bwysig yw hi i bob gwasanaeth a phob rhanddeiliad fod yn atebol am weithredu'r cwricwlwm – nid arweinwyr ysgolion yn unig (Yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol, 2022). Yn ôl 'Cwricwlwm i Gymru: Y daith i 2022' (2020):

> **"Bydd y ffordd y mae ysgolion yn mynd ati i baratoi a chynllunio'r cwricwlwm yr un mor bwysig â'r hyn a wnant. Bydd datblygu ar y cyd yn hanfodol wrth ddatblygu eu dulliau gweithredu."**

Gall gweithwyr ieuenctid ymgysylltu ag ysgolion ynglŷn ag egwyddorion fel:

- Datblygu ar y cyd: Rhannu problemau a datblygu atebion ar y cyd ar draws ffiniau traddodiadol. Mae gan waith ieuenctid arbenigedd mewn cydgynhyrchu a llais y disgybl.
- Datblygu ar y cyd mewn ffordd deg: Sicrhau bod pob llais yn y broses yn cynnig cyfraniad dilys. Mae gan waith ieuenctid hanes o ymgysylltu â phobl ifanc a ymyleiddiwyd (Estyn, 2024).
- Cyfle ac amser i feddwl ac ymgysylltu: Datblygu cydberthnasau, atebion a syniadau o'r radd flaenaf dros amser.
- Deall yn glir 'pam' y caiff pethau eu dysgu: Mynegi pa mor bwysig yw dysgu penodol.
- Ymgysylltu'n feirniadol gydag arbenigedd: Ymgysylltu â mewnbwn arbenigol ac ymchwil o'r radd flaenaf. Gall gweithwyr ieuenctid eu hystyried eu hunain yn arbenigwyr mewn dulliau addysgegol beirniadol, cymdeithasol a chreadigol (Estyn, 2020, t43).

Mae dogfen Estyn yn nodi gwahanol gamau'r broses weithredu, sef: ymgysylltu, cynllunio, treialu, gwerthuso a mireinio parhaus. Yn ystod pob cam, dylai ysgolion wneud y canlynol:

- Cynnwys rhieni, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol eraill, a'r gymuned ehangach.
- Datblygu dealltwriaeth gyffredin ar draws rhanddeiliaid.
- Archwilio gwahanol fathau o addysgeg.
- Deall anghenion, galluoedd, hunaniaethau a gwerthoedd y dysgwyr.
- Datblygu llais y disgybl, gan gynnwys pobl ifanc a ymyleiddiwyd yn y broses.
- Cymryd rhan mewn dysgu proffesiynol a rhwydweithiau addysgol ehangach.

Dylid cynnwys gwaith ieuenctid ym mhob un o'r camau hyn, gan hwyluso'r gwaith o ymgysylltu ag eraill, yn cynnwys pobl ifanc a ymyleiddiwyd a'r gymuned leol, a chan gynnig dulliau ac addysgegau gwahanol. Caiff y pwyntiau allweddol a grybwyllir gan Estyn (2020) eu cadarnhau gan y Canllawiau ar gyfer Ysgolion Bro (2020). Dylai gwaith ieuenctid ac ysgolion gydweithredu er mwyn targedu adnoddau'n effeithiol (Llywodraeth Cymru, 2024).

## Cyfraniad o ran arweinyddiaeth

Mae nifer o brosiectau gwaith ieuenctid ac ysgolion yn defnyddio modelau arwain sy'n seiliedig ar arweinyddiaeth wasgaredig, arweinyddiaeth systemau ac arweinyddiaeth sy'n gweddnewid. Yn ystod argyfwng, mae ysgolion yn dychwelyd yn aml at fodelau hierarchaidd a gorawdurdodol, ond mae prosiectau gwaith ieuenctid yn gwneud yn fawr o arweinyddiaeth ddatganoledig, wasgaredig a gweddnewidiol. Mae'r gwrthgyferbyniad hwn yn nodedig o ystyried y llenyddiaeth ar newid effeithiol a diwygio addysg (Fullan 2019, 2020; Harris 2020). Mae dull gwaith ieuenctid yn arbennig o bwysig yn ystod cyfnodau ansicr, a gallai'r naill sector ddysgu gan y llall, yn enwedig mewn perthynas ag arweinyddiaeth systemau a deall gwahanol broffesiynau. Mae Estyn (2024) yn hyrwyddo hyfforddiant ar y cyd er mwyn gwella dealltwriaeth broffesiynol o ddysgu ffurfiol ac anffurfiol.

Mae adroddiad yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn galw ar Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru i gynorthwyo pob arweinydd, yn cynnwys arweinwyr yn y sectorau Addysg Bellach, Addysg Uwch, Arbennig ac Ieuenctid. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni pwrpasol sy'n canolbwyntio ar y Cwricwlwm i Gymru, lle defnyddir model cymeradwyo'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Hefyd, mae'r adroddiad yn awgrymu y dylai'r Cwricwlwm i Gymru lywio rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon, ac mae'n galw am ymestyn cyllid rhaglenni dysgu proffesiynol er mwyn cynnwys gwaith ieuenctid. Ar hyn o bryd, mae gwaith ieuenctid yn cael oddeutu £200k gan Lywodraeth Cymru – sef cyfran fechan iawn o'r arian a gaiff ysgolion.

## Materion sy’n destun pryder

**Deall gwaith ieuenctid**

Er bod polisïau’n cydnabod bod gwaith ieuenctid yn elfen addysgol, ni chaiff hyn ei ddeall yn lleol bob amser. Mae rhai ysgolion yn gweld gwaith ieuenctid fel darpariaeth amgen, gweithgaredd hamdden neu ffordd o reoli pobl ifanc broblemus, gan wrthdaro â chydnabyddiaethau polisi allweddol a fframweithiau arolygu Estyn (Estyn, 2024). Mae adroddiad yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol yn nodi bod angen chwalu’r syniad y dylai gwaith ieuenctid ganolbwyntio’n bennaf ar bobl ifanc a ymyleiddiwyd.

Mae dogfen Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru (2023), lle cyfeirir at adroddiad 2013 yr Asiantaeth Genedlaethol Ieuenctid, yn nodi camgyfathrebu ar y ddwy ochr:

"Youth workers can often struggle to articulate the value of their profession. However, schools can also fail to communicate adequately how they want to work with youth workers to support their students."

Mae angen mynegi’n well y dull addysgol unigryw a ddefnyddir gan waith ieuenctid. Nid digon yw dweud bod gwaith ieuenctid yn canolbwyntio ar yr unigolyn neu ei fod yn grymuso unigolion, oherwydd mae nifer o athrawon yn credu eu bod yn gwneud yr union bethau hynny. Rhaid i waith ieuenctid ddiffinio’i ddull addysgegol a’i “wybodaeth gudd” yn glir.

Mae angen i weithwyr ieuenctid drafod sut i weithio’n effeithiol mewn ysgolion, gan gydbwyso’r egwyddor wirfoddol a pha un a ddylid cynnig gwasanaethau cyffredinol neu wasanaethau wedi’u targedu. Trwy bwysleisio galluogedd pobl ifanc a thrwy drafod pŵer a dewisiadau, gellir helpu i ddelio â’r dryswch hwn. Ymhellach, mae angen cael trafodaethau a chanllawiau arweinyddiaeth ar waith cydweithredol mewn ysgolion fel y gellir mynd i’r afael â’r ddynameg pŵer, diffinio rolau a gweithio’n foesegol gyda thargedau a deilliannau (Ysgolion Bro, 2020). Efallai y dylai Cymru ddilyn model yr Alban yn hyn o beth, gan fod y wlad honno wedi llunio canllawiau ar y modd y dylid cynnwys gwaith ieuenctid mewn ysgolion a’r modd y dylid ei gynnwys wrth gynllunio’r cwricwlwm.

# 5. Argymhellion

## Ar gyfer y Llywodraeth

- Darparu rhagor o gyllid realistig a dyrannu adnoddau'n strategol er mwyn mynd i'r afael â chyfyngiadau o ran arian, pobl a deunyddiau yn y Sectorau Gwaith Ieuenctid, fel y gellir ymhél yn ystyrlon â gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru ar lefel genedlaethol.
- Darparu adnoddau ychwanegol gogyfer amser rhyddhau staff ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm yn barhaus, rhoi rhagor o gymorth i Gynorthwywyr Addysgu, uwchsgilio staff a chreu adnoddau.
- Gweithredu argymhellion yr adolygiad gwella ysgolion, a sicrhau bod gan y sector gwaith ieuenctid gynrychiolaeth strategol ar lefel genedlaethol, uwch-leol a lleol er mwyn iddo allu bod yn bartner addysgol allweddol wrth lywio newid. Sicrhau bod trefniadau rhanbarthol yn cynnwys canllawiau clir sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng ymreolaeth a rhoi caniatâd i ysgolion. Sicrhau bod ysgolion yn adolygu ac yn myfyrio ar y modd y gweithredir y Cwricwlwm i Gymru, a sicrhau eu bod yn pennu cyfleoedd i weithio gydag arweinwyr o leoliadau a sectorau gwahanol.
- Sicrhau bod trefniadau rhanbarthol newydd yn mynd ati'n systematig i gynnwys gweithwyr ieuenctid fel partneriaid strategol a bod unrhyw rwydweithiau cydweithredol yn gweithio'n effeithiol fel y gellir elwa i'r eithaf ar arbenigedd yn ymwneud â'r cwricwlwm.
- Sefydlu dulliau cymorth haen ganol, megis model y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol er mwyn galluogi ysgolion a darllenwyr eraill i rannu arferion da, cyfuno adnoddau a gwella ymdrechion cydweithredu fel y gellir uwchsgilio'r staff i ddarparu cwmpas i wella addysgeg ac arweinyddiaeth.
- Ategu Dysgu Proffesiynol ar lefel genedlaethol mewn ysgolion, addysg bellach, addysg uwch, y Sector Gwaith Ieuenctid a Dysgu Seiliedig ar Waith, gan ymateb i lenyddiaeth a chanfyddiadau rhyngwladol mewn adroddiadau thematig yn ymwneud â'r Cwricwlwm i Gymru a chyhoeddiadau eraill yn ymwneud â dysgu proffesiynol.
- Ymgorffori'r Cwricwlwm i Gymru ac Arweinyddiaeth Systemau yng ngofynion y cwricwlwm ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon a Rhaglenni Meistr a Gwaith Ieuenctid Cymwys.
- Defnyddio arbenigedd sawl sector, yn cynnwys prifysgolion, i lywio ysgolion o ran ymchwil weithredu effeithiol ar y cyd ag ysgolion a gweithwyr ieuenctid, gan gydnabod arbenigedd gweithwyr ieuenctid o ran hwyluso gwaith cymheiriaid.
- Parhau i gomisiynu a chynnal ymchwil yn ymwneud â gweithredu'r cwricwlwm, yn cynnwys: rheoli mewn argyfwng a rheoli i oroesi, gweithredu systemau, arweinyddiaeth wasgaredig ac arweinyddiaeth sy'n gweddnewid, gwahanol ddulliau addysgegol, gweithio gyda phobl ifanc a ymyleiddiwyd yn y system addysg, yn cynnwys materion yn ymwneud ag amrywiaeth a'i chroestoriadau a hwyluso lleisiau disgyblion, cymunedau a rhieni/gofalwyr.
- Sicrhau bod canllawiau ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm yn cyfeirio'n benodol at gynnwys gweithwyr ieuenctid fel partneriaid strategol a darparwyr. Sicrhau hefyd bod y canllawiau'n argymell y dylid cynnwys gweithwyr ieuenctid wrth ymgysylltu â rhieni/gofalwyr, proffesiynau eraill a'r gymuned ehangach, ac y dylid datblygu llais y disgybl, yn cynnwys pobl ifanc a ymyleiddiwyd a phobl ifanc mewn addysg gymunedol.
- Sicrhau bod canllawiau Estyn yn cyfeirio'n benodol at y modd y gall gwaith ieuenctid gynorthwyo ysgolion i gyflawni eu gofynion strategol cyffredinol o ran darparu profiad dysgu cadarnhaol i bawb, yn arbennig i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a phobl ifanc a ymyleiddiwyd yn y system addysg, ac o ran hwyluso deialog gyda rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach, gan ddatblygu Llais y Disgybl a datblygu'n ysgolion cymunedol.
- Sicrhau bod canllawiau Estyn yn cydnabod y cyfraniad y gall gwaith ieuenctid ei wneud o ran cynnwys disgyblion yn y gwaith o gyflawni'r cwricwlwm: deall y gymdeithas, cael eu hysbrydoli, gweld eu cryfderau, siapio eu dysgu, ysgwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol, deall amrywiaeth a gwahaniaeth, gwneud yn fawr o gyfleoedd arwain, gweithio ar y cyd ac yn annibynnol, meithrin cydberthnasau cadarnhaol gyda chyfoedion ac oedolion, teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u bod yn cael eu trin yn deg.
- Sicrhau bod gweithwyr ieuenctid yn cael mynediad cyfyngedig llawn at HWB.
- Sicrhau na cheir dyblygu wrth ddatblygu adnoddau, yn enwedig mewn perthynas ag adnoddau addysg bersonol a chymdeithasol y gallai gweithwyr ieuenctid eu cyflwyno a *vice versa*.

## Ar gyfer Darparwyr Hyfforddiant

- Sicrhau bod cyrsiau Gwaith Ieuenctid ac Addysg Gychwynnol i Athrawon yn ymdrin â'r canlynol: y Cwricwlwm i Gymru, arweinyddiaeth wasgaredig, arweinyddiaeth sy'n gweddnewid, arweinyddiaeth systemau, cyfraniad Gweithwyr Ieuenctid at ysgolion, y modd y gall Gwaith Ieuenctid weithio'n effeithiol mewn ysgolion, gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth a'r pethau sy'n ysgogi gweithio mewn partneriaeth.
- Sicrhau bod rhaglenni'n ymdrin â dulliau rheoli ac arwain yn ystod cyfnodau ansicr ac argyfyngau, a'r modd y gellir ffynnu yn hytrach na goroesi.

## Ar gyfer Arweinwyr Ysgolion

- Sicrhau eu bod yn dilyn ffyrdd o ledaenu'r syniadau damcaniaethol a'r gwaith ymchwil diweddaraf mewn perthynas ag arweinyddiaeth ysgolion, gweithredu'r cwricwlwm, a dulliau addysgegol/arwain gwahanol, gan greu cynghreiriau gydag academyddion addysgol ac academyddion eraill.
- Cydnabod bod Gwaith Ieuenctid yn ymdrech addysgol a chanddo'i nodau a'i ddull addysgegol unigryw ei hun, a bod ganddo rywbeth i'w gynnig i bob disgybl, yn cynnwys disgyblion a ymyleiddiwyd yn y system addysg.
- Peidio â gweld gwaith ieuenctid fel gweithgaredd hamdden, ffordd o reoli ymddygiad neu ffordd o newid ymddygiad.
- Cydnabod a defnyddio gweithwyr ieuenctid fel arbenigwyr cydgynhyrchu, arbenigwyr mewn gweithio'n gadarnhaol gyda phobl ifanc a ymyleiddiwyd ac arbenigwyr mewn meysydd yn ymwneud ag addysgegau beirniadol, cymdeithasol, creadigol a ffiniol, a chydnabod y cyfraniad y gall hyn oll ei wneud at gwricwlwm effeithiol.
- Cydnabod a defnyddio'r cyfraniad sydd gan waith ieuenctid i'w wneud o ran gweithredu modelau arweinyddiaeth wasgaredig ac arweinyddiaeth sy'n gweddnewid yn ystod cyfnodau ansicr.
- Creu gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth a hyfforddiant gyda gweithwyr ieuenctid fel y gellir datblygu cyd-ddealltwriaeth o rolau a dulliau addysgegol gwahanol.
- Cydnabod a chynnwys Gweithwyr Ieuenctid yn y broses o gynllunio'r Cwricwlwm i Gymru yn strategol ac yn y broses o weithredu'r canllawiau ar gyfer Ysgolion Bro (Llywodraeth Cymru, 2020), yn arbennig o ran hwyluso ymgysylltu â disgyblion, rhieni a chymunedau, addysg gymunedol, cynnal ymchwil cymheiriaid a gwerthuso mentrau, hwyluso deialog ryngbroffesiynol a thynnu sylw at syniadau addysgegol newydd.
- Cydnabod y cyfraniad y gall Gwaith Ieuenctid ei wneud yn strategol mewn perthynas â gofyniad Estyn i greu profiad dysgu cadarnhaol i bawb, yn enwedig i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a phobl ifanc a ymyleiddiwyd mewn addysg brif ffrwd, ac mewn perthynas â hwyluso deialog gyda rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach, yn cynnwys datblygu Llais y Disgybl ac Addysg Gymunedol.
- Cydnabod y cyfraniad y gall Gwaith Ieuenctid ei wneud o ran cyflawni'r cwricwlwm, yn enwedig o dan feini prawf arolygu Estyn mewn perthynas â disgyblion: deall y gymdeithas, cael eu hysbrydoli, gweld eu cryfderau, siapio eu dysgu, ysgwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol, deall amrywiaeth a gwahaniaeth, gwneud yn fawr o gyfleoedd arwain, gweithio ar y cyd ac yn annibynnol, meithrin cydberthnasau cadarnhaol gyda chyfoedion ac oedolion, teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u bod yn cael eu trin yn deg.
- Gweithio'n strategol gydag arweinwyr gwaith ieuenctid i dreialu dysgu y tu allan i oriau ar gyfer pobl ifanc fel elfen hanfodol o ddulliau Ysgolion Bro (2022), yn seiliedig ar anghenion pobl ifanc.

## Ar gyfer Arweinwyr Gwaith Ieuenctid

- Sicrhau eu bod yn dilyn ffyrdd o ledaenu'r syniadau damcaniaethol a'r gwaith ymchwil diweddaraf mewn perthynas â gwaith ieuenctid, addysgeg ac arweinyddiaeth, yn cynnwys arweinyddiaeth systemau. Creu cynghreiriau gydag academyddion gwaith ieuenctid ac academyddion addysgol eraill, fel rhan o'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (pan fo modd).
- Sicrhau cynrychiolaeth strategol ar lefel leol, uwch-leol a chenedlaethol wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, a chyfrannu at ddatblygiadau yn y trefniadau gwella ysgolion wrth iddynt ddatblygu.
- Mynegi rôl gwaith ieuenctid, yn cynnwys y dulliau addysgegol gwahanol a'r "wybodaeth gudd", yn cynnwys y pwyslais a rydd gwaith ieuenctid ar alluogedd, ein dadansoddiad o'r cydbwysedd pŵer mewn ysgolion a'n telerau ymrwymo gwahanol, gan hyrwyddo barn gadarnhaol ynglŷn â phobl ifanc, lleihau safbwyntiau negyddol, a chanolbwyntio ar ymgysylltu â'r gymdeithas a'r gymuned, mewn modd sy'n cyd-fynd â pholisïau allweddol. Byddai strategaeth gyfathrebu o fudd yn hyn o beth – efallai y gall grŵp y Prif Swyddogion Ieuenctid ysgwyddo cyfrifoldeb dros hyn.
- Hyrwyddo gerbron Gweithwyr Ieuenctid eraill pa mor werthfawr yw gweithio gydag ysgolion, yn cynnwys trafodaethau ynglŷn â chyffredinoliaeth a thargedu a'r egwyddor wirfoddol, ond hefyd sut i fynd ati i lywio dynameg pŵer, diffinio rolau gweithwyr ieuenctid yn glir, gweithio gyda thargedau a chanlyniadau mewn modd moesegol, a mynd i'r afael â gwahaniaethau yn y modd y dyrennir adnoddau.
- Gofyn i ysgolion a chonsortia rhanbarthol, yn ogystal â darparwyr gwasanaethau, gymryd rhan mewn camau cynllunio, gan fynegi sut gallant gyfrannu'n gadarnhaol at weithredu'r Cwricwlwm a chynllunio'n strategol ar ei gyfer. Efallai y byddai arweiniad ar bwy ddylai gymryd rhan, a sut, yn fuddiol yn hyn o beth.
- Sicrhau eu bod yn gwybod am yr elfennau sy'n ysgogi ysgolion, yn cynnwys asesu a chynnydd ac Arolygon Estyn.
- Mynegi'r cyfraniad y gall Gwaith Ieuenctid ei wneud o ran disgwyliadau Estyn a gwella deilliannau i bobl ifanc.
    - Yn strategol o ran darparu profiad dysgu cadarnhaol i bawb, yn enwedig i bobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol a phobl ifanc a ymyleiddiwyd, ac o ran hwyluso deialog gyda rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach, yn cynnwys addysg gymunedol.
    - O ran cyflawni'r cwricwlwm i ddisgyblion ar gyfer y meini prawf arolygu canlynol: deall y gymdeithas, cael eu hysbrydoli, gweld eu cryfderau, siapio eu dysgu, ysgwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol, deall amrywiaeth a gwahaniaeth, gwneud yn fawr o gyfleoedd arwain, gweithio ar y cyd ac yn annibynnol, meithrin cydberthnasau cadarnhaol gyda chyfoedion ac oedolion, teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u bod yn cael eu trin yn deg.

# 6. Cyfeiriadau

Aldous, D., Evans, V., Lloyd, R., Heath-Diffey, F., a Chambers, F. (2022). Realising curriculum possibilities in Wales: Teachers' initial experiences of re-imagining secondary physical education. *Curriculum Studies in Health and Physical Education*, *13*(3), 253-269.

Breeze, T., Beauchamp, G., Bolton, N., a McInch, A. (2023). Secondary music teachers: a case study at a time of education reform in Wales. *Music Education Research*, *25*(1), 49-59.

Daniëls, E., Hondeghem, A., a Dochy, F. (2019). A review on leadership and leadership development in educational settings. *Educational Research Review*, *27*(June 2019), 110-125.

Day, C., Sammons, P., a Gorgen, K. (2020). Successful School Leadership. *Yr Ymddiriedolaeth Datblygu Addysg, Llundain*

Durden-Myers, EJ ac Evans E (2024). "Evaluating the implementation of curriculum reform: the perspectives of Welsh teachers navigating the new health and wellbeing area of learning experience." *Journal of Education for Teaching* : 1-22

Fullan, M.  2020. Leading in a Culture of Change. 2il Argraffiad. Josie-Bass: Hoboken.

Gouëdard, P., Pont, B., Hyttinen, S., a Huang, P. (2020). Curriculum reform: A literature review to support effective implementation, Organisation for Economic Co-operation and Development, Paris, Ffrainc.

Gurr, D. A. V. I. D. (2023). A think-piece on leadership and education. *UNESCO*.

Harris, Alma. (2020). Systems Leadership and Systems Leaders. [Ar-lein]. Ar gael ar: https://nael.cymru/wp-content/uploads/2021/04/System-Leaders-and-System-Leadership.pdf

Li, L., Hallinger, P., a Ko, J. (2016). Principal leadership and school capacity effects on teacher learning in Hong Kong. *International Journal of Educational Management*, *30*(1), 76-100.

Karakus, G. (2021). A literary review on curriculum implementation problems. *Shanlax International Journal of Education*, *9*(3), 201-220.

Kools, M., Stoll, L., George, B., Steijn, B., Bekkers, V., a Gouëdard, P. (2020). The school as a learning organisation: The concept and its measurement. *European Journal of Education*, *55*(1), 24-42.

Marchant E, Dowd J, Bray L, Rowlands G, Miles N, Crick T, (2024). The well-being and work-related stress of senior school leaders in Wales and Northern Ireland during COVID-19 "educational leadership crisis": A cross-sectional descriptive study. Mahmoud AB, golygydd. PLoS One [Y Rhyngrwyd]. 2024

Power, S., Newton, N., a Taylor, C. (2020). 'Successful futures' for all in Wales? The challenges of curriculum reform for addressing educational inequalities. *The curriculum journal*, *31*(2), 317-333.

Reynolds, D., a McKimm, J. (2021). Educational management and leadership in Wales: promise, performance and potential. *School Leadership & Management*, *41*(1-2), 54-72.

Shaked, H., a Schechter, C. (2016). Sources of systems thinking in school leadership. *Journal of School Leadership*, *26*(3), 468-494.

Sinnema, C., Nieveen, N., a Priestley, M. (2020). Successful futures, successful curriculum: What can Wales learn from international curriculum reforms?. *The Curriculum Journal*, *31*(2), 181-201.

Stevenson, I., a Weiner, J. M. (2020). *The strategy playbook for educational leaders: Principles and processes*. Routledge.

Thomas, H., Duggan, B., McAlister-Wilson, S., Roberts, L., Sinnema, C., Cole Jones, N., a Glover, A. (2023). Research on the early implementation of Curriculum for Wales: Wave 2 report.

# Atodiad 1

## Papur yn ymwneud a rôl arweinyddiaeth addysgol ar draws y sectorau Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion wrth weithredu'r Cwricwlwm i Gymru: Methodoleg

**Methodoleg**
Roedd tri cham yn perthyn i'r papur gwyntyllu.

### 1. Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth

Cynhaliwyd Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth mewn perthynas â llenyddiaeth genedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol yn ymwneud â rolau arweinwyr addysgol o ran gweithredu'r cwricwlwm, ac yn enwedig o ran y modd y gallai arweinyddiaeth ysgolion a gwaith ieuenctid lywio polisïau ac arweinyddiaeth yng Nghymru. Bydd termau chwilio'r asesiad yn cael eu trafod gydag arweinwyr addysgol (arweinwyr gwaith ieuenctid ac ysgolion) a chynrychiolwyr rhanddeiliaid eraill, yn cynnwys pobl ifanc. Derbynnir yn gyffredinol bod Asesiadau Cyflym o'r Dystiolaeth yn esgor ar chwiliad ac asesiad ansawdd mwy trylwyr a strwythuredig o'r dystiolaeth o gymharu ag adolygiadau llenyddiaeth, ond nid ydynt mor gynhwysfawr ag adolygiadau systematig (Y Llywodraeth, 2017). Fodd bynnag, cânt eu beirniadu hefyd ar sail diffyg eglurder a diffyg meini prawf cytunedig (Kangura et al, 2012, Tricco et al, 2015, Kelly et al, 2016). Gyda hyn mewn cof, dilynwyd y dull a argymhellir gan Hamel et al (2021). Yn unigol, ac yna ar y cyd, fe wnaethom ddilyn y broses ganlynol:

- *Dull Systematig:* Cynnal chwiliad cynhwysfawr a strwythuredig o'r llenyddiaeth er mwyn canfod astudiaethau perthnasol
- *Cynnwys Meini Prawf:* Diffinio'n glir y meini prawf ar gyfer cynnwys astudiaethau er mwyn sicrhau perthnasedd ac ansawdd
- *Gwerthusiad Beirniadol:* Asesu ansawdd a dibynadwyedd yr astudiaethau a gynhwyswyd
- *Tynnu Data:* Mynd ati'n systematig i dynnu data perthnasol o'r astudiaethau
- *Cyfuno'r Canfyddiadau:* Integreiddio canfyddiadau'r astudiaethau er mwyn cynnig ateb cydlynol i'r cwestiwn ymchwil
- *Tryloywder:* Dogfennu'r holl broses er mwyn sicrhau ei bod yn atgynyrchadwy ac yn dryloyw
- *Amseroldeb:* Cydbwyso trylwyredd ar y naill law â'r angen i gynnal adolygiad amserol ar y llaw arall, yn aml trwy wneud consesiynau o ran hyd a lled yr ymchwil.

***Paramedrau'r termau chwilio***
Y nod oedd cynnal chwiliad cynhwysfawr, gan fynd ati ar yr un pryd i asesu swm dichonadwy o lenyddiaeth. Cynhaliwyd rhai chwiliadau rhagarweiniol (nid i asesu'r llenyddiaeth, ond i asesu'r meini prawf ar gyfer cynnal chwiliad strwythuredig). Isod, nodir y termau sylfaenol ac eilaidd y cytunwyd arnynt, ynghyd â meini prawf cynnwys/hepgor. Byddwn yn chwilio am y termau sylfaenol ar ffurf amryfal gyfuniadau trwy ddefnyddio termau o blith pob un o'r tri chategori a hefyd mewn parau (ond nid ar eu pen eu hunain); bydd termau eilaidd yn cael eu defnyddio i gyfyngu ar y chwiliadau, gan ddibynnu ar nifer y chwiliadau perthnasol. Os bydd y llenyddiaeth yn brin neu'n fylchog, byddwn yn defnyddio rhai termau sylfaenol sengl gyda thermau eilaidd, e.e. gwaith ieuenctid, addysg anffurfiol.

O safbwynt ymchwil academaidd, rhoddir blaenoriaeth i ddadansoddiadau systematig ac Ymarferion Asesu Ymchwil eraill, ac yna ymchwil empirig ansoddol a meintiol. Fe wnaethom edrych ar erthyglau damcaniaethol ac erthyglau barn, yn enwedig y rhai a ysgrifennwyd gan arbenigwyr ac ysgolheigion arweiniol, gan eu bod yn ffynonellau cyfeirio gwerthfawr. Hefyd, fe wnaethom bori trwy restrau cyfeirio erthyglau ymchwil arbennig o berthnasol. Roedd un agwedd ar y broses o asesu erthyglau'n ymwneud â'u dull methodolegol, ond ni roddwyd ffafriaeth i erthyglau meintiol na hap-dreialon rheoli.

- *Termau Sylfaenol 1:* Leadership, Leaders, Educational Leadership
- *Termau Sylfaenol 2:* Youth Work, Schools, formal education, informal education, youth development (yn yr Unol Daleithiau)
- *Termau Sylfaenol 3:* Curriculum, Curriculum for Wales, Curriculum Implementation.
- *Termau Eilaidd 1*: systems leadership, distributive leadership, Management styles
- *Termau Eilaidd 2:* UK, England, empirical, research, qualitative, quantitative
- *Termau Eilaidd 3:* systematic review, Rapid Evidence Assessments, Literature review.

***Cronfeydd data academaidd***
Aethom ati i groesgyfeirio cronfeydd metadata academaidd, Google Scholar, Sage a Taylor and Francis.

**Llenyddiaeth lwyd**
O ran llenyddiaeth lwyd, bydd chwiliadau'n cael eu cynnal (gyda meini prawf tebyg i'r rhai a nodir uchod) ar gronfeydd data ymchwil addysg (EBSCO, National Teacher Database) a storfeydd gwybodaeth a chronfeydd data gwaith ieuenctid (Youth and Policy, Infed). Rhoddwyd blaenoriaeth yn gyntaf i adolygiadau llenyddiaeth ac ymchwil empirig. (Gan na fydd nifer o'r erthyglau ymchwil hyn wedi cael eu hadolygu gan gymheiriaid, bydd y broses yn cynnwys asesu eu dull methodolegol.) Yr unig adeg y defnyddir pecynnau cymorth a chanllawiau arferion da yw pan fônt wedi'u seilio ar ymchwil empirig. Bydd adroddiadau sy'n brin o ymchwil empirig yn cael eu defnyddio'n bennaf ar gyfer pori trwy eu cyfeiriadau. Ni fyddwn yn defnyddio ymchwil nad yw'n empirig, nac ychwaith flogiau nac adroddiadau eraill sy'n ymddangos ar y cyfryngau cymdeithasol.

I grynhoi, daethom o hyd i 100 a mwy o gyhoeddiadau hollbwysig, a chyfeirir at 65 ohonynt yn y papur hwn. Mae'r mwyafrif o'r astudiaethau wedi'u lleoli yn y DU ac mae'r mwyafrif ohonynt yn ansoddol. Rydym wedi gwahaniaethu rhwng papurau sy'n ymwneud yn benodol â gweithredu polisïau'r Cwricwlwm ar y naill law a llenyddiaeth academaidd ehangach ar y llaw arall. Gweithiau ymchwil Estyn a'r Cwricwlwm i Gymru yw'r rhai y cyfeirir atynt amlaf, a'r gweithiau hyn yw'r rhai mwyaf perthnasol. Yn achos y llenyddiaeth lwyd, gellir ystyried bod y deunyddiau'n ddibynadwy oni nodir yn wahanol; ac yn achos y gwerthusiadau, gellir ystyried eu bod yn seiliedig ar waith empirig. Yn gyffredinol, ni chânt eu hysgogi gan ddamcaniaethau neu gysyniadau.

## 2. Grwpiau Ffocws
Cynhaliwyd tri grŵp ffocws gyda sampl bach o Arweinwyr Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion ledled y sector, nid o ran data empirig, ond i wirio ein canfyddiadau a chofnodi eu safbwyntiau ynglŷn â gweithredu cysyniadau arweinyddiaeth allweddol ar draws ffiniau proffesiynol er mwyn datblygu dulliau arloesol o gyflawni pedwar diben y Cwricwlwm Newydd i Gymru. Roedd y cwestiynau'n cynnwys:

- Beth yw eich dealltwriaeth o'r Cwricwlwm Newydd i Gymru?
- Pa arweinwyr eraill ydych chi wedi'u cynnwys wrth weithredu'r cwricwlwm?
- Beth yw cryfderau a heriau'r cwricwlwm a'r Pedwar Diben?
- Pa fodel arwain sydd gennych/a welwch mewn ysgolion? Pa fodelau arwain a ddefnyddir gan arweinwyr Gwaith Ieuenctid?
- A ydych chi ac Arweinwyr o sectorau eraill wedi gweithio gyda'ch gilydd yn strategol? A allwch esbonio'r hyn a wnaethoch? Ar ba lefel y gwnaethoch gyfrannu? Beth oedd lefelau'r staff? Prif Swyddog Gweithredol, arweinydd canol, gweithiwr rheng flaen?
- Sut mae arweinwyr mewn addysg anffurfiol/addysg heb fod yn ffurfiol ac addysg ffurfiol wedi cynnwys y naill a'r llall yn strategol ar lefel ranbarthol a chenedlaethol?
- A allwch roi enghreifftiau o brosiectau y gwnaethoch gymryd rhan ynddynt gydag arweinwyr addysgol eraill? Sut cafodd y prosiectau hynny eu rheoli?
- A oes gennych unrhyw beth yr hoffech ei ddweud wrthym?

Hefyd, buom yn gweithio gyda chlwb ieuenctid lleol er mwyn clywed safbwyntiau pobl ifanc, yn enwedig eu safbwyntiau ynglŷn â'r gwahaniaethau rhwng ysgolion a chlybiau ieuenctid, a pha anghenion a gaiff eu diwallu gan y naill sefydliad a'r llall. Roedd y cwestiynau'n cynnwys:

- Ym mha ffyrdd mae gennych lais, neu ddiffyg llais, mewn ysgolion? A oes unrhyw beth wedi newid?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng gweithiwr ieuenctid ac athro a sut maent yn cydweithio/sut gallent gydweithio?
- Sut mae eich ysgolion yn cynnwys eich rhieni, eich gofalwyr a'ch cymuned?
- Pa weithgareddau gwaith ieuenctid ydych chi'n cymryd rhan ynddynt? A oes rhai ohonynt yn cael eu cynnal yn yr ysgol?
- A oes gennych unrhyw beth arall i'w ychwanegu ynglŷn â gwaith ieuenctid ac ysgolion?

Roedd y gwaith dadansoddi'n cynnwys cyfuno dadansoddiad thematig a damcaniaeth seiliedig. Darllenodd yr ymchwilwyr y sgriptiau ar wahân i'w gilydd, gan gytuno wedyn ar themâu cyffredinol a ddaeth i'r amlwg. Wedyn, cafodd y rhain eu codio, ond datblygwyd rhagor o is-themâu yn iteraidd, ac mewn un achos datblygwyd prif thema trwy gyfrwng y broses godio. Yna, cafodd y themâu hyn eu cydgrynhoi. Yn ein dadansoddiad, cadwyd mor agos â phosibl at y testunau gwreiddiol, a hefyd fe wnaethom ystyried y llenyddiaeth ehangach, gan bennu meysydd lle gwelwyd cytundeb a gwahaniaethau, a phan gyfoethogwyd yr ymchwil bresennol.

## 3. Llunio a gwirio argymhellion

Lluniwyd argymhellion ar ddatblygu rôl arweinyddiaeth, yn seiliedig ar roi dull arweinyddiaeth systemau ar waith i weithredu'r Cwricwlwm Newydd i Gymru, a phennu sut gallant ategu a chydweithredu o fewn addysg ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol i gyflawni elfennau allweddol diwygiadau addysgol a gwella deilliannau i bobl ifanc. Cam olaf ein dull oedd cynnal gweithdai i wirio'r argymhellion. Trafodwyd yr aelodaeth gydag Arweinwyr Gwaith Ieuenctid ac Ysgolion o blith y grŵp rhanddeiliaid. Yn sgil y gweithdai hyn, bu modd inni wneud y canlynol:

- Gwirio'r modd yr aethom ati i ddehongli'r dystiolaeth.
- Asesu i ba raddau y cytunnir ar y canfyddiadau a'r argymhellion.
- Archwilio unrhyw wahaniaethau yn y canfyddiadau ar draws prosiectau, a cheisio deall y gwahaniaethau hynny.
- Casglu safbwyntiau ychwanegol ynglŷn â chanfyddiadau cymhleth, annisgwyl neu ansicr.
- Trafod syniadau ar gyfer argymhellion.
- Trafod syniadau ar gyfer cyfathrebu'r canfyddiadau mewn modd defnyddiol, yn cynnwys arferion da.

**Ystyriaethau moesegol yn y broses ymchwil**

Gan weithio o fewn canllawiau moesegol Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth a chan reoli data yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cymhwyswyd yr ystyriaethau canlynol at yr ymchwil hon er mwyn lleihau risgiau:

- Ceisiwyd cydsyniad ar sail gwybodaeth gan yr holl gyfranogwyr. Rhoddwyd i'r cyfranogwyr daflen wybodaeth a oedd yn nodi manylion y prosiect, a gofynnwyd iddynt lenwi ffurflen gydsynio.
- Rhoddwyd gwybod i'r cyfranogwyr ymlaen llaw am weithdrefnau cyfrinachedd ac ym mha amgylchiadau y gellid torri cyfrinachedd. Cafodd data'r holl gyfranogwyr ei anonymeiddio a chafodd yr holl wybodaeth ei phrosesu a'i storio yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Cydnabuwyd ac ategwyd hawl y cyfranogwyr i dynnu'n ôl o'r astudiaeth.
- Cyflwynwyd manylion am ein safbwyntiau a'n dylanwad posibl ar y broses ymchwil.

# Atodiad 2:

## Gwaith Ieuenctid, Dull Addysgol, Gwasanaethau a'u perthynas â Meini Prawf Arolygu Estyn




**Addysgeg Ffiniol (e.e. cyfryngu, cymorth bugeiliol, llais y disgybl)**

- Datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu
- Cael eu parchu a'u trin yn deg
- Meithrin sgiliau arwain ac ysgwyddo cyfrifoldeb
- Cynorthwyo'r disgyblion i feithrin agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu er mwyn iddynt wneud y canlynol:
  - Ymddwyn yn dda a chymryd rhan yn gadarnhaol mewn gweithgareddau dysgu
  - Dyfalbarhau neu chwilio am atebion newydd pan fyddant yn wynebu anawsterau
  - Meithrin cydberthnasau gweithio cadarnhaol gydag oedolion a'u cyfoedion

# Atodiad 3:

## Y potensial i gynnwys gwaith ieuenctid mewn gwaith cynllunio strategol yn ymwneud â gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion.

| Cam | Y modd y gellir cynnwys gwaith ieuenctid yn strategol | Gofynion / cyfraniad gwaith ieuenctid |
|---|---|---|
| **Ymgysylltu (1-2 dymor)** | • ymgysylltu â **llenyddiaeth academaidd** ac **ymchwil seiliedig ar dystiolaeth**<br>• **cychwyn sgyrsiau gyda dysgwyr, rhieni/ gofalwyr a rhanddeiliaid** ynglŷn â'r hyn sy'n newid a'r modd y gallant gymryd rhan, a sefydlu dulliau ar gyfer datblygu pethau ar y cyd<br>• ystyried **sut gall addysgeg gynorthwyo i wireddu'r cwricwlwm** a dechrau pennu pa ddulliau a fydd yn gweithio orau i'r disgyblion yn yr ysgol honno<br>• cymryd rhan mewn **dysgu proffesiynol** er mwyn datblygu gallu pob gweithiwr proffesiynol, a defnyddio adborth gan yr arolwg o Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu er mwyn helpu i ddatblygu amgylchedd sy'n cefnogi dysgu proffesiynol parhaus<br>• cyfleu **dealltwriaeth o anghenion, galluoedd, hunaniaethau a gwerthoedd amrywiol y dysgwyr** er mwyn helpu i bennu beth mae'r pedwar diben yn ei olygu i'r dysgwyr ac i'r ysgol<br>• gweithio **ar y cyd mewn rhwydweithiau** | • Rhannu gwybodaeth academaidd gydag ysgolion, yn cynnwys pa mor ddilys yw gwahanol ddulliau ac addysgegau<br>• Hwyluso trafodaethau rhwng athrawon a gweithwyr ieuenctid ynglŷn ag addysgeg a'r cwricwlwm<br>• Hwyluso trafodaethau gyda disgyblion, rhieni/ gofalwyr a'r gymuned leol<br>• Cymryd rhan mewn hyfforddiant ar y cyd, ar lefel leol a chenedlaethol<br>• Sefydlu prosiectau ymchwil cymheiriaid yn ymwneud ag anghenion, galluoedd, hunaniaethau a gwerthoedd y dysgwyr<br>• Bod yn rhan o glystyrau rhyngysgolion / consortiwm rhanbarthol newydd |
| **Dylunio, cynllunio a threialu (3 thymor)** | • **dechrau'r broses ddylunio, a fydd yn cynnwys yr holl randdeiliaid** – yn cynnwys y dysgwyr, yr holl ymarferwyr a'r llywodraethwyr – a **chynnwys rhieni/gofalwyr a'r gymuned leol**<br>• cymryd rhan mewn **dysgu proffesiynol** sy'n ategu datblygiad addysgu<br>• **parhau i weithio ar y cyd mewn rhwydweithiau**, a thrwy hynny mynd ati i feithrin cydberthnasau eraill gyda phartneriaid addysg uwch fel y gellir llunio cwricwlwm sy'n seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gyfoethog<br>• **datblygu mwy fyth ar ddealltwriaeth ymarferwyr o bwysigrwydd addysgeg** o ran cynorthwyo i wireddu'r cwricwlwm a pharhau i bennu'r dulliau y cynigiant eu rhoi ar waith<br>• **ystyried amrywiaeth o ddulliau (e.e. disgyblaethol, rhyngddisgyblaethol, amlddisgyblaethol)**<br>• pennu pa ddull(iau) y dylid eu profi a'u gwerthuso yng nghyd-destun yr ysgol, pennu gwahanol feysydd dysgu a phrofiad, **gan sicrhau yr ystyrir anghenion yr holl ddysgwyr mewn cyd-destun cynhwysol** | • Bod yn rhan o'r cam dylunio<br>• Rhannu gwybodaeth academaidd gydag ysgolion ynglŷn â llunio gwahanol fentrau gyda dulliau ac addysgegau ac ymchwil gwaith ieuenctid<br>• Hwyluso'r broses ymgysylltu er mwyn sicrhau bod y disgyblion, y rheini/gofalwyr a'r gymuned leol yn parhau i ymgysylltu â'r cam dylunio<br>• Sefydlu prosesau gwerthuso gan gymheiriaid ar gyfer mentrau, a'u hategu<br>• Bod yn rhan o glystyrau rhyngysgolion / consortiwm rhanbarthol newydd<br>• Datblygu hyfforddiant ar y cyd, ar lefel leol a chenedlaethol |

| | | |
|---|---|---|
| **Gwerthuso a pharatoi ar gyfer addysgu y tro cyntaf (2-3 tymor)** | • **sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn deall pwysigrwydd addysgeg** o ran cynorthwyo i wireddu'r cwricwlwm<br>• parhau i **ymgysylltu â rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach** er mwyn gwireddu'r weledigaeth a'r broses sy'n gysylltiedig â llunio'r cwricwlwm<br>• parhau i **weithio ar y cyd mewn rhwydweithiau**, gan rannu dulliau o lunio a datblygu'r cwricwlwm<br>• ymestyn cyfnodau cynllunio a threialu tymor byr a thymor canolig, **gan sicrhau bod y dulliau hyn yn gynhwysol i bob dysgwr**<br>• **datblygu prosesau effeithiol ar gyfer ymgysylltu a chyfathrebu â rhieni/gofalwyr** drwy gydol y flwyddyn ysgol i ategu ymchwil weithredu ar lefel yr ysgol sy'n anelu at ddatblygu cynnydd y dysgwyr, er mwyn helpu i hwyluso'r gwaith parhaus o lunio a chreu'r cwricwlwm. | • Bod yn rhan o'r cam gwerthuso<br>• Rhannu gwybodaeth academaidd ynglŷn â gwahanol ddulliau gwerthuso ac ymchwil<br>• Hwyluso'r broses ymgysylltu er mwyn sicrhau bod y disgyblion, y rheini/gofalwyr a'r gymuned leol yn parhau i ymgysylltu â'r cam gwerthuso a datblygu<br>• Sefydlu prosesau gwerthuso gan gymheiriaid ar gyfer mentrau, a'u hategu<br>• Bod yn rhan o glystyrau rhyngysgolion / consortiwm rhanbarthol newydd<br>• Datblygu hyfforddiant ar y cyd, ar lefel leol a chenedlaethol, yn cynnwys rhannu arferion gorau |
| **Addysgu y tro cyntaf a gwaith mireinio parhaus** (o fis Medi 2023) | • sicrhau bod y pedwar diben a'u nodweddion allweddol yn llywio'r modd y rhoddir y cwricwlwm ar waith, yn ogystal â'r dull asesu a'r **addysgeg**<br>• gwella dealltwriaeth o'r **hyn mae'r dibenion yn ei olygu i'r dysgwyr**, yn cynnwys ymhél ag arbenigedd academaidd, a defnyddio'r treiddgarwch hwnnw i lywio ymarfer<br>• cydweithredu ag ysgolion a lleoliadau eraill i wella'r ddealltwriaeth, y capasiti a'r gallu i gynorthwyo i wireddu'r cwricwlwm, ynghyd ag ategu **addysgegau effeithiol** a dulliau asesu cynnydd disgyblion<br>• **parhau i ddatblygu ar y cyd** wrth wireddu'r cwricwlwm yn yr ysgol, gan **gynnwys y staff, y dysgwyr, y rheini/gofalwyr a'r gymuned ehangach mewn modd priodol.** | • Bod yn rhan o'r cam mireinio parhaus<br>• Cyd-greu gwybodaeth academaidd gydag ysgolion mewn perthynas â dulliau newydd<br>• Hwyluso'r broses ymgysylltu er mwyn sicrhau bod y disgyblion, y rheini/gofalwyr a'r gymuned leol yn parhau i ymgysylltu<br>• Sefydlu prosesau ymchwil a gwerthuso gan gymheiriaid, a'u hategu<br>• Bod yn rhan o glystyrau rhyngysgolion / consortiwm rhanbarthol newydd<br>• Datblygu hyfforddiant ar y cyd, ar lefel leol a chenedlaethol |

Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

agaa.cymru | nael.cymru